

Cynllun Gwella Corfforaethol 2008-12

Cyngor Dinas a Sir Abertawe



Cynnwys

	<i>Tud.</i>
Rhagair	3
Cenhadaeth, Gweledigaeth, Nodau a Gwerthoedd	6
Pennod 1 - Cyflwyniad	8
Pennod 2 - Yr Amgylchedd a Chymunedau	11
Pennod 3 - Yr Economi	13
Pennod 4 - Plant a Phobl Ifanc	15
Pennod 5 - Iechyd a Gofal Cymdeithasol	17
Pennod 6 - Adnoddau	19
Pennod 7 - Fframwaith Rheoli Perfformiad	21
Pennod 8 - Trosolwg a Chraffu	23
Pennod 9 - Cyllid a Chostau	28
Pennod 10 - Crynodeb o Berfformiad 2007/08	31
Pennod 11 - Sut i gael mwy o wybodaeth	33
Atodiad A - Cynlluniau Gweithredu Blaenoriaethau Allweddol	35
Atodiad B - Perfformiad o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol Eraill yng Nghymru a Lloegr	91
Atodiad C - Tablau Data Dangosyddion Perfformiad 2007/08	92

Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn fformat arall, cysylltwch â'r Tîm Perfformiad Busnes ar:

- Ffôn **01792 636852**
- Ffôn testun **01792 636733**
- E-bost **improvement@swansea.gov.uk**

Rhagair

Croeso i Gynllun Gwella Corfforaethol Blynyddol Cyngor Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2008/2012.

Mae 2008 yn nodi diwedd cylch pedair blynedd y Cynllun Corfforaethol diwethaf a gyhoeddwyd gan yr awdurdod yn 2004, felly eleni, rydym wedi achub ar y cyfle i gyfuno ein Cynllun Gwella blynyddol ar gyfer y flwyddyn i ddod â'n Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2008-2012.

Mae'r Cynllun Gwella Corfforaethol yn amlinellu amcanion a champau gweithredu'r cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf, a hefyd ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hwy. Fel y bu gyda chynlluniau gwella blaenorol, nod y rhain yw cyflawni a chynnal gwelliant mewn perfformiad ac wrth gyflwyno gwasanaethau.

Yn y flwyddyn ddiwethaf cyflwynwyd nifer o brosiectau cyffrous gennym, a pharhawyd â phrosiectau a fydd yn gwella'r amgylchedd yn Ninas a Sir Abertawe a'r cyffiniau. Yn eu plith y mae;

- Cwblhau ac ailfywhau'r Ganolfan Ddinesig gan gynnwys llyfrgell ganolog gyfoes newydd ar ddau lawr, Canolfan Hanes Teulu ac Archifau a Chanolfan Gyswilt wyneb yn wyneb;
- Agoriad swyddogol y cyrchfan hamdden newydd gwerth £32 filiwn, yr LC, gan y Frenhines a Dug Caeredin;
- Cwblhau ac agor y Bont Seidin newydd eiconig sy'n croesi Ffordd Fabian sydd wedi'i chydhabod mewn gwobrau cenedlaethol ac Ewropeaidd mawreddog;
- Y canlyniadau ardderchog a gafwyd pan ddaeth gwaith y Cynllun Addysg Sengl a fu'n rhedeg o fis Medi 2006 tan fis Awst 2008 i'w anterth. Mae nifer y myfyrwyr sy'n ennill gradd A* i C wedi codi i'w farc uchaf erioed ar 68.9%. Hefyd, mae cyfraddau presenoldeb yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd wedi codi'n raddol, ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig wedi parhau i gynyddu;
- Nodi datblygwyr i adfywio safleoedd y Cwadrant, canolfan Dewi Sant, Stryd Paxton a'r Hwylbont, gan gryfhau cysylltiadau'r glannau â chanol y ddinas;
- Gwelliannau parhaus i'r gwasanaeth Parcio a Theithio gan gynnwys cwblhau safle Fforestfach ac agor y cyswllt cyflym newydd ar lwybr Glandŵr ac ymrwymiad i astudiaeth dichonoldeb ynghylch gosod pedwerydd safle yng ngorllewin y ddinas;
- Dadorchuddio'r stadiwm bowls dan do o safon ryngwladol ym Mhlasmarl;
- Datblygiad parhaus yr Ysgol Gynradd Gymraeg newydd - Y.G.G. Llwynderw yn West Cross, ac ailadeiladu Ysgol Gyfun Penyrheol a ddinistriwyd gan dân, gwaith y disgwylir ei gwblhau erbyn mis Medi 2009;
- Ailwampio ac adnewyddu Llyfrgell Gorseinon, gydag ymrwymiad i wneud yr un peth i Lyfrgell Pontarddulais;
- Parhau i adfer Parc Brynmill, gan gynnwys agor y Ganolfan Ddarganfod newydd;

Fodd bynnag, er gwaetha'r llwyddiannau hyn - llwyddiannau y dylai'r staff ymroddedig a fu'n gyfrifol am eu cyflwyno fod yn falch iawn ohonynt – mae'n hanfodol ein bod yn parhau i edrych i'r dyfodol er mwyn i bob un ohonom ddod ynghyd i geisio cyflawni ein gweledigaeth eithaf ar gyfer Abertawe, sef sicrhau y bydd Abertawe erbyn 2020 yn ddinas Ewropeaidd unigryw.

Gan ystyried hyn, a chyda'r cyfle sydd gennym i ddechrau cylch newydd o'r Cynllun Corfforaethol, rydym wedi asesu nodau craidd y cyngor sydd eisoes yn bod a'u hail ffocysu i'n galluogi i gyflwyno ein gweledigaeth uchelgeisiol. Dyma'r nodau a nodwyd gennym fel ysgogwyr i gyflwyno'r weledigaeth:

- 1. Gwella a diogelu ein hamgylchedd a gwneud cymunedau'n fwy diogel** er mwyn i bawb gael lle gwych i fyw ynddo.
- 2. Gwella potensial economaidd Abertawe** er mwyn i bawb fod yn rhan o economi sy'n ffynnu.
- 3. Gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc a chodi safonau cyrhaeddiad a chyflawniad** er mwyn i bawb gael y dechrau gorau mewn bywyd.
- 4. Gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bob un** er mwyn i bawb fwynhau'r iechyd gorau posib.
- 5. Gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau** er mwyn i bobl dderbyn y gwasanaethau gorau posib.

Bydd y cynllun hwn yn cynnwys pennod ar bob un o'r nodau hyn a fydd yn amlinellu sut yn union rydym yn bwriadu eu cyflwyno, ond a fydd hefyd yn dangos lle rydym ar hyn o bryd o ran y cyflwyno hyn ac yn amlygu'r peryglon posib sy'n gysylltiedig â pheidio â chyflawni ein nodau. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i fod yn ymwybodol o'r darlun cyflawn wrth gyflwyno ein gweledigaeth, ac atgyfnerthir hwn gan ein Fframwaith Rheoli Perfformiad a hefyd y cynlluniau unigol sy'n amlinellu sut bydd pob nod yn cael ei gyflawni.

Dyma sampl o rai o'r mentrau penodol a fydd yn helpu i gyflwyno ein nodau:

- Sicrhau bod yr holl wasanaethau sy'n ymwneud â glanhau/cynnal a chadw'r strydoedd yn cael eu cydlynu'n dda.
- Lleihau gwastraff a chynyddu ein compostio a'n hailgylchu drwy ehangu gwasanaethau ailgylchu gwastraff y gegin a gwastraff gwyrdd ymyl y ffordd.
- Darparu system gludiant integredig ar draws yr holl foddau cludiant.
- Gwella a datblygu canol y ddinas.
- Cyflwyno'r strategaeth addysg newydd, AoS 2020, a fydd yn parhau i wella canlyniadau a chyflwr adeiladau ysgolion.
- Ailffurfio ac ail-lunio'r gwasanaethau iechyd a'r rhai sy'n ymwneud ag iechyd.
- Rhoi'r agenda iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar waith.
- Cyflwyno Strategaeth Gwasanaethau i Gwsmeriaid er mwyn parhau i wella mynediad i'r cyhoedd.
- Cyflawni sefydlogrwydd ariannol drwy'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Er y byddwn yn wynebu'r dyfodol gyda gobaith, mae'n rhaid i ni hefyd fod yn realistig ynghylch cyflwr yr economi byd-eang ar hyn o bryd, y mae ganddo oblygiadau i bob un ohonom, gan gynnwys yr Awdurdodau Lleol. Serch hynny, fel sefydliad, byddwn yn parhau i weithio mor effeithiol ac effeithlon â phosib, ac yn ceisio symud tuag at gyrraedd ein nodau mewn ffordd mor broffesiynol â phosib.

O ran perfformiad y gorffennol, bydd y penodau canlynol hefyd yn esbonio perfformiad y cyngor yn ystod 2007/08 yn fanylach, ac yn nodi'r hyn y mae'r cyngor yn bwriadu ei wneud i wella perfformiad dros y blynyddoedd nesaf. Ceir mwy o wybodaeth am feysydd diddordeb penodol ar ein gwefan www.abertawe.gov.uk.

Rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn fewnwelediad diddorol i'r datblygiadau a'r heriau cyffrous y mae'r cyngor yn eu hwynebu dros y flwyddyn nesaf ac wedi hynny, ac rydym yn croesawu unrhyw sylwadau gennych yn eu cylch.



ARWEINYDD



PRIF WEITHREDWR

Cenhadaeth

Cyflwyno gwasanaethau o safon ar gyfer Abertawe fwy gwyrdd, diogel a ffyniannus.

GWELEDIGAETH AR GYFER ABERTAWE

Erbyn 2020 bydd Abertawe'n ddinas Ewropeaidd unigryw. Dinas lle bydd

- Gan bawb lle gwych i fyw ynddo
- Pawb yn cael y dechrau gorau posib mewn bywyd
- Pawb yn derbyn addysg dda
- Pawb yn teimlo'n ddiogel
- Pawb yn rhan o economi ffyniannus
- Pawb yn mwynhau'r iechyd gorau posib
- Pawb yn derbyn y gwasanaethau gorau posib

NODAU'R CYNGOR

Rydym am barhau i:

1. Wella a diogelu ein hamgylchedd a gwneud cymunedau'n fwy diogel er mwyn i bawb gael lle gwych i fyw ynddo.
2. Gwella potensial economaidd Abertawe er mwyn i bawb fod yn rhan o economi ffyniannus.
3. Gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc a chodi safonau cyrhaeddiad a chyflawniad er mwyn i bawb gael y dechrau gorau mewn bywyd.
4. Gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pawb er mwyn i bawb fwynhau'r iechyd gorau posib.
5. Gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau er mwyn i bobl dderbyn y gwasanaethau gorau posib.

GWERTHOEDD

Gwaith tîm

Gweithio gydag eraill a gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno gwasanaethau.

Gonestrwydd

Gwerthfawrogi ein cwsmeriaid, egluro pam rydym yn gwneud pethau a bod yn atebol am y penderfyniadau a wnawn.

Blaengaredd

Datblygu gwasanaethau drwy flaengaredd a bod yn gynaliadwy yn ein hymagwedd tuag at gyflwyno gwasanaethau.

Parch

Cydnabod amrywiaeth, parchu gwahaniaethau a gwerthfawrogi ein diwylliant a'n treftadaeth.

Brwdfrydedd

Ymwneud â chymunedau yn gadarnhaol a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau

Gofal

Deall bod gan bobl wahanol anghenion a chyflwyno gwasanaethau yn unol â hyn.

Pennod 1 - Cyflwyniad

Bob blwyddyn mae gan y cyngor gyfrifoldeb statudol i gynhyrchu Cynllun Gwella sy'n rhoi darlun eang ynghylch sut mae'r cyngor wedi perfformio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Cynllun Gwella yn sefydlu cyfeiriad strategol a blaenoriaethau pwysicaf y cyngor yn gyffredinol. Y cynllun hwn hefyd yw prif ddull y cyngor o hysbysu'r cyhoedd a'r rhanddeiliaid ynghylch ei berfformiad wrth gyflawni'r nodau a'r blaenoriaethau.

Cyflawnwyd swm sylweddol o waith er mwyn trefnu nifer o agendâu a meysydd gwaith allweddol, yn enwedig ers yr etholiadau Llywodraeth Leol diweddar ym mis Mai. Mae peth o'r gwaith hwn yn cynnwys:

Y Cynllun Corfforaethol - roedd ein Cynllun Corfforaethol blaenorol yn ddogfen ar wahân a oedd yn cynnwys y cyfnod 2004-2008. Gan fod angen diweddarau ac adnewyddu'r cynllun hwn eleni, fe'i hystyrid yn briodol i'w gyfuno â'r Cynllun Gwella Blynnyddol. Bydd hwn yn dangos yn well y cysylltiadau rhwng yr Agenda Genedlaethol, ein Strategaeth Gymunedol, ein Hagenda Wella a'n nodau a'n blaenoriaethau corfforaethol.

Strategaeth Gymunedol - mae hon yn cael ei diwygio ar gyfer 2008 yn unol â'r arweiniad diweddar gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r broses yn cael ei goruchwyllo gan Bartneriaeth Gwell Abertawe a bydd yn cynnwys canlyniadau gwaith ymgynghori ac ymwneud â phartneriaid, grwpiau a fforymau y mae ganddynt gysylltiad â'r cyngor a rhanddeiliaid eraill. Bydd y strategaeth ddiwygiedig ar gael erbyn y gwanwyn nesaf er mwyn caniatáu ymrwymiad llawnach a chyfle i asio â strategaethau a chynlluniau allweddol eraill.

Mae'r Strategaeth Gymunedol yn nodi nifer o Flaenoriaethau Partneriaeth a Rennir lle mae'r deilliannau'n glir, yn bwysig i'r gymuned, yn medru cael eu cyflwyno'n ymarferol ac ni ellir eu cyflwyno gan asiantaeth sengl ar ei phen ei hun. Nodwyd bod pedwar o'r Blaenoriaethau Partneriaeth a Rennir yn flaenoriaethau ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe. Mae'r Cynllun Gwella Corfforaethol yn croes gyfeirio at y Blaenoriaethau Partneriaeth a Rennir hyn ar gyfer pob nod corfforaethol ym mhob pennod berthnasol. Gellir cael rhagor o fanylion am y Strategaeth Gymunedol a thudalennau perthnasol ar wefan Partneriaeth Gwell Abertawe www.swansea.gov.uk/bsp.

Fframwaith Rheoli Perfformiad - fel rhan o waith datblygu'r Cynllun Gwella Corfforaethol newydd rydym hefyd yn edrych ar ddatblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd i'r cyngor. Bydd hyn yn helpu i ddod â meysydd allweddol megis Cynllunio Busnes, Rheoli Perfformiad a Risgiau, Her Gwasanaeth, etc., ynghyd. Maent oll yn feysydd allweddol wrth asesu a gwella perfformiad y cyngor a'i wasanaethau.

Nodau a Blaenoriaethau Corfforaethol a ailddiffiniwyd - ceir nifer o ffactorau sy'n dylanwadu ar ddatblygu Nodau a Blaenoriaethau Corfforaethol y cyngor. Ar lefel genedlaethol, roedd angen i'r cyngor ystyried agenda *Creu'r Cysylltiadau*, mentrau newydd, deddfwriaeth, newidiadau a mynediad i gyllid a rhesymoli cynlluniau. Yn lleol, mae'n rhaid i ni ystyried canlyniad yr etholiadau lleol a'r mandad ar gyfer y Weinyddiaeth, blaenoriaethau ein partneriaid a sut mae hyn yn effeithio ar y cyngor, cyflwyno'r Byrddau Gwasanaethau Lleol a materion ynghylch cyllidebau, risgiau a chanlyniad y gwaith rheoleiddio ac archwilio.

Ceir gwybodaeth fanylach am bob nod corfforaethol yn y penodau sy'n dilyn, gan gynnwys crynodeb byr o ganlyniadau disgwylidig, risgiau a chynnydd cyfredol a gweithgareddau sy'n ymwneud â'r nod hwnnw. Gellir cael hyd i fwy o wybodaeth am gerrig milltir a graddfeydd amser yn yr atodiadau.

Cynladwyedd - mae'r cyngor yn awyddus i gymryd ymagwedd gyfannol at fuddsoddi mewn dyfodol cynaliadwy sy'n sicrhau bod Abertawe'n diwallu anghenion cymdeithasol drwy gefnogi cymuned gynhwysol sy'n fywiog, yn ddiogel ac yn iach. Rydym am i Abertawe fod yn rhanbarth sy'n parhau i barchu a gwella ei amgylchedd gwerthfawr a'n nod yw hyrwyddo llwyddiant economaidd sy'n sicrhau cydbwysedd bywyd / gwaith deinamig.

Ein nod yw annog datblygwyr a busnesau lleol i ddod yn fwy cynaliadwy, a gweithio'n agos â'r rhai sy'n llunio polisiau ar lefel leol a chenedlaethol ar faterion megis:

- Pecynnau Arfarnu Cynladwyedd i nodi cyfleoedd busnes cynaliadwy y bydd busnesau newydd a'r rhai sydd eisoes yn bod yn elwa ohonynt.
- Uned Datblygu Cynaliadwy sy'n cynnig cefnogaeth i fusnesau drwy gyhoeddiadau a chanllawiau ar sut gallant fanteisio ar ddatblygu cynaliadwy.
- Cyngor ar grantiau a doler ar y wefan er mwyn cael mwy o wybodaeth.
- Hyrwyddo busnesau cynaliadwy lleol drwy gynhyrchu tafenni megis Cyfeirlyfr Cynhyrchwyr Lleol a digwyddiadau blynyddol megis Gwobrau Abertawe Gynaliadwy.

Mae ein datblygiadau cyfredol yn y maes hwn yn cynnwys datblygu Fframwaith Datblygu Cynaliadwy Corfforaethol a digwyddiadau blynyddol megis Cynllun Gweithredu Caffael Cynaliadwy.

Cydraddoldebau - Mae gan y cyngor nifer o gynlluniau sy'n cynnwys materion cydraddoldeb, megis:

- Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl 2006-09
- Cynllun Cydraddoldeb Hiliol
- Adolygiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Bydd yr holl gynlluniau unigol hyn yn cael eu hymgorffori mewn Cynllun Cydraddoldebau Sengl sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a chaiff ei gyhoeddi yn 2009. Yn ogystal â hyn, rydym hefyd yn darparu arweiniad cynhwysfawr i reolwyr, yn cynnwys materion cydraddoldeb fel rhan o'n Rhaglen Sefydlu Staff ac yn asesu ein gwasanaethau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chynlluniau cydraddoldeb a deddfwriaeth (drwy'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a gynhelir ym mhob adran).

Rhoddir manylion ynghylch sut i gael gafael ar ddogfennau cysylltiedig, a mwy o wybodaeth ar ein gwefan ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Pennod 2 - Yr Amgylchedd a Chymunedau

Ein nod yw gwella a diogelu ein hamgylchedd a gwneud cymunedau'n fwy diogel er mwyn i bawb gael lle gwych i fyw ynddo.

O dan y nod hwn, **ein blaenoriaethau partneriaeth a rennir o'r strategaeth gymunedol yw:**

- Newid yn yr Hinsawdd
- Rheoli Ynni a Charbon
- Bae Abertawe
- Amrywiaeth Bywyd Gwyllt
- Ofn Troseddu

Ein blaenoriaeth allweddol gyntaf yw sicrhau bod yr holl wasanaethau sy'n ymwneud â glanhau a chynnal a chadw'r strydoedd yn cael eu cydlynu'n dda.

Canlyniad hwn fydd cynnydd cadarnhaol yn y modd y mae'r cyhoedd yn ystyried glendid ardaloedd, eu diogelwch a'u golwg cyffredinol. Bwriedir i hwn wella rheoli tir gwag er mwyn gwella hyder cymunedol, a chysylltu â chymunedau er mwyn cynyddu balchder lleol. Bydd cyflwr y priffyrdd yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben ac yn hwyluso glanhau effeithiol ac effeithlon.

Mae natur ein risg yn y maes hwn yn ymwneud ag adrannau'r cyngor yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol a'r modd y mae'r cyhoedd yn ystyried glendid. **Ein lefel risg gyfredol** yn y maes hwn yw **canolig**.

Mae ein cynnydd cyfredol yn ymwneud â thimau'n gweithio ar gylch wythnosol mewn ardaloedd penodol i gasglu sbwriel. Hefyd, ceir nifer o dimau dynodedig eraill ar gyfer glanhau a chynnal a chadw canol y ddinas, glanhau traethau, glanhau baw cŵn a thipio sbwriel yn anghyfreithlon. Hefyd, ceir saith o Dimoedd Gweithredu Amgylcheddol Cymdogaethau (NEAT) a chanddynt gylch gwaith llawer ehangach i fynd i'r afael â materion cynnal a chadw ehangach er mwyn gwella ardaloedd a threulio cyfnodau penodol mewn wardiau gwahanol (ar system rota) o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Rydym yn cynnal rhwydwaith y priffyrdd drwy raglenni 5 mlynedd, sy'n cynnwys heolydd, troedffyrdd, goleuadau a phontydd.

Ein hail flaenoriaeth allweddol yw lleihau gwastraff a chynyddu ein compostio a'n hailgylchu.

Y canlyniad fydd cyflawni targedau lwfans safleoedd tirlenwi; gostyngiad yng nghostau safleoedd tirlenwi a'r dreth safleoedd tirlenwi a delir; mwy o bobl yn ailgylchu; cynnydd mewn incwm gan gonacontractau sy'n ymwneud â deunydd ailgylchu; newid diwylliannol yn yr ymagwedd at wastraff a lleihau gwastraff; cydnabyddiaeth gan y cyhoedd o'u cyfraniad at leihau effaith bosib newid yn yr hinsawdd.

Mae natur ein risg yn y maes hwn yn ymwneud â chyflawni targedau cenedlaethol ac osgoi cosbau ariannol. **Mae ein lefel risg gyfredol** yn y maes hwn yn parhau'n **uchel**.

Mae ein cynnydd cyfredol yn y maes hwn yn cynnwys y cyngor yn casglu deunydd ailgylchu ymyl y ffordd bob pythefnos, gwasanaeth sydd ar gael i bob cartref yn y Ddinas a'r Sir. Mae gwastraff cegin a gwastraff gwyrdd cartrefi traean y ddinas yn cael eu casglu bob pythefnos, a darperir pum safle amwynder dinesig hefyd er mwyn cael gwared ar wastraff cartref neu ei ailgylchu am ddim.

Ein trydedd flaenoriaeth allweddol yw cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy sydd o safon, a gweithio tuag at wella tai'r cyngor at Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)

Canlyniad hwn fydd gwelliant sylweddol i gyflwr tai a bydd y buddsoddi ychwanegol y mae ei angen er mwyn cyflawni hyn yn dod â manteision economaidd ehangach ac yn cyfrannu at adfywio'r stadau.

Mae natur ein risg yn y maes hwn yn ymwneud â bodloni'r SATC a chyflenwi lefel digonol o dai fforddiadwy. **Mae ein lefel risg gyfredol** yn y maes hwn yn parhau'n **ganolig/uchel**.

Mae ein cynnydd cyfredol yn y maes hwn yn cynnwys datblygu strategaeth ar gyfer cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy, a datblygu strategaeth tymor hwy er mwyn gwella'r stoc yn dilyn pleidlais gan y tenantiaid yn erbyn trosglwyddo'r stoc tai. Bwriedir i'r strategaeth wella tai cyngor a bod Cynllun Cyfrif Refeniw Tai sy'n ddichonol o safbwynt ariannol ac yn dderbyniol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn ei gefnogi. Bydd hefyd yn adlewyrchu canlyniadau'r broses ymgynghori gyda thenantiaid a rhanddeiliaid allweddol. Rydym hefyd yn datblygu cynllun cyflwyno tai fforddiadwy er mwyn rhoi datganiad clir ar sut mae'r cyngor yn bwriadu cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Bydd yn darparu cyfeiriad a chefnogaeth i randdeiliaid a phartneriaid wrth gyflwyno tai fforddiadwy.

Mae ein Cynlluniau Gweithredu Blaenoriaethau Allweddol sy'n disgrifio'r camau gweithredu penodol y byddwn yn eu cymryd i gyflawni pob blaenoriaeth allweddol o dan y nod hwn, a sut byddwn yn mesur eu cyflawniad, ar gael yn Atodiad A.

Pennod 3 - Yr Economi

Ein nod yw parhau i wella potensial economaidd Abertawe er mwyn i bawb fod yn rhan o economi ffyniannus.

Ein blaenoriaethau partneriaeth a rennir o'r strategaeth gymunedol o dan y nod hwn yw:

- 1. Anweithgarwch Economaidd (blaenoriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol)**
- 2. Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg neu Hyfforddiant (blaenoriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol)**
- 3. Ansawdd yr Aer**
- 4. Sgiliau Lefel Uchel**

Ein Blaenoriaeth Allweddol gyntaf yw darparu system drafnidiaeth integredig ar draws yr holl foddau cludiant sy'n ystyried economi'r nos.

Y canlyniad fydd manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol megis gwella mynediad, gwella diogelwch a lleihau effaith cludiant ar yr amgylchedd fel a nodwyd yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Mae natur ein risg yn y maes hwn yn ymwneud â'r isadeiledd trafndiaeth, tagfeydd, parcio ceir a sut mae'r cyhoedd yn ystyried hyn. **Ein lefel risg gyfredol** yn y maes hwn yw **canolig**.

Mae ein cynnydd cyfredol yn y maes hwn yn cynnwys rhoi'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar waith. Mae gennym drefniadau rheoli asedau yn eu lle ac mae rhaglenni cynnal a chadw a gwella ar y gweill ar gyfer: ffyrdd cerbydau a throedffyrdd, waliau cynnal a phontydd, cyfarpar goleuadau traffig, meysydd parcio a'r draethlin. Cyflwynwyd cynllun gorfodi parcio sifil ac mae'r gronfa paratoi parcio i breswylwyr ar fin cael ei diweddarau. Rydym wedi darparu marsialiaid tacsis a gorfodi mewn lleoliadau allweddol ar adegau allweddol a byddwn yn darparu safleoedd ychwanegol yn y ddinas.

Ein hail flaenoriaeth allweddol yw gwella cludiant cyhoeddus a'i wneud yn fwy deniadol er mwyn annog pobl i'w ddefnyddio, ac mae hyn yn cynnwys darparu Cyfnewidfa Fysus fodern.

Canlyniad hwn fydd cynyddu'r nifer sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus, gwella mynediad, lleihau tagfeydd a phroblemau ansawdd aer.

Mae natur ein risg yn y maes hwn yn ymwneud â chael cysylltiadau cludiant effeithiol, lleihau tagfeydd a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. **Mae ein lefel risg gyfredol** yn y maes hwn yn **isel**.

Mae ein cynnydd cyfredol yn y maes hwn yn cynnwys ailddatblygu gorsaf fysus y Cwadrant a chwblhau'r lonydd bysus cyflym a gynlluniwyd yn ystod 2008-2010, ynghyd ag ehangu'r cyfleusterau parcio a theithio. Mae'r paratoadau ar gyfer isadeiledd Metro canol y ddinas wedi'u cwblhau a bydd y bws ar gael o haf 2009.

Ein trydedd flaenoriaeth allweddol yw gwella a datblygu canol y ddinas.

Y canlyniad fydd mwy o fywiogrwydd, gweithgaredd a ffyniant, gan gynnwys darparu cyflogaeth ychwanegol a defnyddiau cymysg a fydd yn cynhyrchu economi cystadleuol, canolfan siopa ranbarthol o safon, amgylchedd o safon uchel, llety yn y ddinas, dinas lan môr, hygyrchedd a symudiad, a dinas sy'n gyrchfan a chanddi rôl ranbarthol a hunaniaeth unigryw.

Mae natur ein risg yn y maes hwn yn ymwneud â chyflwyno strategol. **Mae ein lefel risg gyfredol** yn y maes hwn yn **uchel**.

Mae ein cynnydd cyfredol yn y maes hwn yn cynnwys datblygu Menter Ar y Cyd ddrafft rhwng y cyngor a Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno Fframwaith Strategol Canol y Ddinas a fydd yn hwyluso ac yn cefnogi datblygiad, trafnidiaeth, isadeiledd a gwelliannau amgylcheddol yng nghanol dinas Abertawe dros y 10 - 15 mlynedd nesaf. Mae gwaith i wella isadeiledd ardal fanwerthu graidd canol y ddinas wedi cychwyn a bydd dau gynllun yn cael eu cyflwyno ar Ffordd y Dywysoges a marchnad Abertawe er mwyn gwella cyfleusterau manwerthu yng nghanol y ddinas.

Ein pedwaredd flaenoriaeth allweddol yw gwella sgiliau ar gyfer dysgu, gwaith a bywyd.

Y canlyniad fydd gwell lefelau sgiliau sy'n briodol i anghenion yr unigolyn a'r economi.

Mae natur ein risg yn y maes hwn yn ymwneud ag anweithgarwch economaidd a phroblemau cysylltiedig, megis iechyd gwael. **Ein lefel risg gyfredol** yn y maes hwn yw **canolig**.

Mae ein cynnydd cyfredol yn y maes hwn yn cynnwys targedu cefnogaeth i blant, pobl ifanc ac oedolion â lefelau llythrennedd a rhifedd isel. Hyfforddi a datblygu sgiliau trosglwyddadwy lefel uchel sy'n gysylltiedig â gwaith, mewn ysgolion.

Mae ein Cynlluniau Gweithredu Blaenoriaethau Allweddol sy'n disgrifio'r camau gweithredu penodol y byddwn yn eu cymryd i gyflawni pob blaenoriaeth allweddol o dan y nod hwn, a sut byddwn yn mesur eu cyflawniad, ar gael yn Atodiad A.

Pennod 4 - Plant a Phobl Ifanc

Ein nod yw wella gwasanaethau i blant a phobl ifanc a chodi safonau cyrhaeddiad a chyflawniad er mwyn i bawb gael y dechrau gorau mewn bywyd.

Ein blaenoriaethau partneriaeth a rennir o'r strategaeth gymunedol o dan y nod hwn yw:

- **Ymyrraeth Gynnar ac Atal (blaenoriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol)**
- **Pobl Ifanc Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (blaenoriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol)**

Ein blaenoriaeth allweddol gyntaf yw cyflwyno rhaglen AoS (Addysg o Safon) 2020.

Y canlyniad yw gwella cyflawniad a chyrhaeddiad plant a phobl ifanc a chyflwyno gwelliant cynyddol yn amgylchedd dysgu a chyflwr ffisegol ysgolion yn Abertawe

Mae natur ein risg yn y maes hwn yn ymwneud â gwell canlyniadau addysgol, cyflwr ysgolion ac amgylchedd dysgu. **Mae ein lefel risg gyfredol** yn y maes hwn yn **uchel**.

Arddangosir ein cynnydd cyfredol yn y maes hwn drwy'r Cynllun Addysg Sengl 2006-2008 a Blaenoriaeth 1 yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc o fis Medi 2008 ymlaen. Mae'r camau gweithredu unigol i gyflwyno'r flaenoriaeth yn cynnwys rhoi'r Cyfnod Sylfaen i blant meithrin ar waith ym mis Medi er mwyn bodloni gofynion statudol LICC. Bu gwelliant yn y canlyniadau TGAU ar gyfer 2008 o'u cymharu â chanlyniadau 2007. Hefyd, bu gostyngiad yn nifer y bobl ifanc 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Erbyn hyn, mae rhaglen a fydd yn cynnwys yr holl welliannau, gan gynnwys codi safonau, mynediad a threfniadaeth ysgol, yn cael ei sefydlu'n gadarn a'i chefnogi'n dda gan ysgolion. Sefydlwyd fforwm rhanddeiliaid hefyd ar gyfer y rhaglen AoS 2020 ddatblygol.

Ein hail flaenoriaeth allweddol yw gwella Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

Y canlyniad yw darparu gwell gwasanaeth i'r gymuned o ran cyflymder ac ansawdd asesiadau, cyflwyno a monitro'r gwasanaethau a gynlluniwyd a chanlyniadau cadarnhaol i blant a'u teuluoedd.

Mae natur ein risg yn y maes hwn yn ymwneud â diogelu plant mewn angen. **Mae ein lefel risg gyfredol** yn y maes hwn yn **uchel**, ond mae mesurau yn eu lle i fynd i'r afael â hyn.

Mae 'cynllun gweithredu gwella' yn ei le fel rhan o'n **cynnydd cyfredol**. Ei nod yw sicrhau gwelliant ar draws amrywiaeth eang o ddarpariaeth, yn bennaf wrth recriwtio a chadw'r gweithlu, a gwella lefelau perfformiad a strwythurau tîm cynaliadwy er mwyn diwallu'r galw am y gwasanaeth a ragwelir.

Ein trydedd flaenoriaeth allweddol yw lleihau effaith tlodi ar Blant a Phobl Ifanc.

Y canlyniad fydd i gael gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr er mwyn i bawb gael y dechrau gorau mewn bywyd, a lleihau neu gael gwared ar y ffactorau sy'n lleihau cyfleoedd am addysg dda a datblygiad ehangach o ran iechyd.

Mae natur ein risg yn y maes hwn yn ymwneud â lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol ac iechyd. **Mae ein lefel risg** gyfredol yn y maes hwn yn **ganolig**.

Mae ein cynnydd cyfredol yn y maes hwn yn cynnwys gwaith yr Uned Cynhwysiad Cymdeithasol, Strategaeth Adfywio Economaidd Abertawe (Abertawe 2020), Blaenoriaeth 3 yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc a'r Cynllun Addysg Sengl. Yn raddol, cyflwynwyd Dechrau'n Deg mewn 8 dalgylch, gan ddarparu gofal plant am ddim, ymweliadau ychwanegol gan ymwelwyr iechyd a chefnogaeth sgiliau sylfaenol. Lefelau darllen gwell ymhlith disgyblion yn y blynyddoedd cynnar mewn ardaloedd difreintiedig wedi'u targedu, yn enwedig lle'r oedd y lefelau'n isel.

Mae ein Cynlluniau Gweithredu Blaenoriaethau Allweddol sy'n disgrifio'r camau gweithredu penodol y byddwn yn eu cymryd i gyflawni pob blaenoriaeth allweddol o dan y nod hwn, a sut byddwn yn mesur eu cyflawniad, ar gael yn Atodiad A.

Pennod 5 - Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ein nod yw gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pawb er mwyn i bawb fwynhau'r iechyd gorau posib.

Ein blaenoriaethau partneriaeth a rennir o'r strategaeth gymunedol o dan y nod hwn yw:

- Ffyrdd Iach o Fyw
- Anghydraddoldebau iechyd rhwng cymunedau

Ein blaenoriaeth allweddol gyntaf yw ailffurfio ac ail-lunio gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cysylltiedig yn Abertawe.

Y canlyniad fydd cefnogaeth i bawb er mwyn iddynt gyflawni'r lefel orau o iechyd a lles posibl i fyw bywydau hwy ac iachach; cyflwyno gofal priodol yn y lleoliad gorau ar yr amser cywir drwy amrediad o sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd; cymunedau ac unigolion yn deall y materion ac yn gyfrifol am eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Mae natur ein risg yn y maes hwn yn ymwneud â gweithio ar y cyd, amrywiaeth ac ansawdd y gwasanaethau, hyrwyddo annibyniaeth a chyfrifoldeb personol dros faterion iechyd. **Mae ein lefel risg gyfredol** yn y maes hwn wedi'i graddio'n **ganolig**.

Mae ein cynnydd cyfredol yn y maes hwn wedi nodi pedair maes blaenoriaeth ar gyfer Newid Strategol i'r Gwasanaeth a nodwyd gan Bartneriaeth Her Iechyd Abertawe, sef:

- Ail-ddylunio gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn.
- Datblygu Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Blant.
- Ail-lunio Gwasanaethau Iechyd Meddwl.
- Ail-lunio Gofal Cymunedol ac Aciwt (Ysbytai).

Ein hail flaenoriaeth allweddol yw rhoi'r agenda lechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar waith.

Y canlyniad fydd cefnogaeth i bawb er mwyn iddynt gael y lefel orau o iechyd a lles posibl i fyw bywydau hwy ac iachach; cyflwyno gofal priodol yn y lleoliad gorau ar yr amser cywir drwy amrediad o sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd; cymunedau ac unigolion yn deall materion ac yn gyfrifol am eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Mae ein lefel risg gyfredol yn y maes hwn yn **ganolig**.

Ein cynnydd cyfredol yn y maes hwn yw'r ail Strategaeth lechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles y cytunwyd arni ar gyfer 2008-2011 gyda chynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn 1af, 2008-09, yn cael ei gynhyrchu i'w chefnogi.

Mae ein Cynlluniau Gweithredu Blaenoriaethau Allweddol sy'n disgrifio'r camau gweithredu penodol y byddwn yn eu cymryd i gyflawni pob blaenoriaeth allweddol o dan y nod hwn, a sut byddwn yn mesur eu cyflawniad, ar gael yn Atodiad A.

Pennod 6 - Adnoddau

Ein nod yw gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau er mwyn i bobl dderbyn y gwasanaethau gorau posib.

Blaenoriaethau partneriaeth a rennir fel a amlinellwyd yn y Strategaeth Gymunedol

- **Ymgynghori a chyfranogi (blaenoriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol)**
- Mynediad Cyfartal i Wasanaethau

Bydd ein blaenoriaeth allweddol gyntaf yn canolbwyntio ar ein Rhaglen Weithlu (e.e. Gwerthuso Swyddi, Cyflogres, Rheoli Absenoldeb Salwch, Moderneiddio'r Gweithlu).

Y canlyniad fydd defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o adnoddau staff y cyngor. Bydd hyn hefyd yn cynnwys cynllunio effeithiol ar gyfer anghenion y gweithlu.

Mae natur ein risg yn y maes hwn yn ymwneud â moderneiddio'r gweithlu. **Mae ein lefel risg** gyfredol yn parhau'n **uchel**.

Mae ein cynnydd cyfredol yn cynnwys bwrw ati i gynllunio rhaglenni a dechrau ar waith dylunio.

Ein hail flaenoriaeth allweddol yw gwella mynediad i gwsmeriaid drwy Strategaeth Gwasanaethau i Gwsmeriaid.

Y canlyniad fydd diffinio safonau ar gyfer gwasanaethau i gwsmeriaid a'u rhoi ar waith, a manteisio'n llawn ar gyfleoedd i wella profiad y cwsmer a gwella lefel boddhad cwsmeriaid.

Mae natur ein risg yn y maes hwn yn ymwneud â gwella boddhad cwsmeriaid a mynediad. **Mae ein lefel risg gyfredol** yn y maes hwn yn **ganolig**.

Ein cynnydd cyfredol yn y maes hwn yw sefydlu gweithgor Gwasanaethau Cwsmeriaid Corfforaethol. Bwriedir i'r Strategaeth ddrafft gychwyn proses ymgynghori erbyn diwedd mis Hydref 2008.

Ein trydedd flaenoriaeth allweddol yw byw o fewn ein hadnoddau a chyflawni sefydlogrwydd ariannol - gan gynnwys y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, portffolio asedau cynaliadwy a rhesymoli depo.

Y canlyniad ar gyfer y flaenoriaeth hon yw y bydd arian ar gyfer gwasanaethau craidd yn cael ei gynnal, a bydd darpariaeth ar gyfer anghenion gwario anochel. Byddwn hefyd yn gwneud y gorau o gyfleoedd i gynhyrchu derbynebau cyfalaf drwy ein portffolio asedau.

Mae natur ein risg yn y maes hwn yn ymwneud â chael asedau ac adnoddau cynaliadwy. **Mae ein lefel risg gyfredol** yn y maes hwn yn **ganolig/uchel**.

Mae ein cynnydd cyfredol yn cynnwys gwaith ar gynnal a datblygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a Rheoli Asedau. Byddwn hefyd yn cwblhau cynllun ariannol lefel uchel ar gyfer adolygiad y Depo yn 2009.

Bydd ein pedwaredd flaenoriaeth allweddol yn canolbwyntio ar drefniadau gweithio ar y cyd ag eraill, gan gyflawni effeithlonrwydd ac arbedion.

Bydd y canlyniad yn golygu gostyngiad mewn costau a darpariaeth gwasanaeth effeithlon ac effeithiol. Bydd hefyd yn annog arfer gorau o fewn y trefniadau gweithio ar y cyd, ac yn gweithio tuag at gyflawni targedau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.

Mae natur ein risg yn y maes hwn yn ymwneud â gwella gweithio ar y cyd ac effeithlonrwydd. **Mae ein lefel risg gyfredol** yn y maes hwn yn **ganolig**.

Mae ein cynnydd cyfredol yn ymwneud â datblygu'r Byrddau Gwasanaethau Lleol, partneriaethau a Phrosiectau Cydgyfeirio i sicrhau eu bod yn ystyrlon, yn effeithiol ac yn cael yr effaith ddisgwyliedig. Bydd rheoli rhaglenni ffurfiol yn cael ei gyflwyno i'n trefniadau gweithio mewn partneriaeth a gweithio ar y cyd a fydd yn sicrhau bod llywodraethu cadarn, strategaethau clir, amcanion a chynlluniau gwireddu buddion yn eu lle ar gyfer yr holl drefniadau gweithio ar y cyd.

Mae ein Cynlluniau Gweithredu Blaenoriaethau Allweddol sy'n disgrifio'r camau gweithredu penodol y byddwn yn eu cymryd i gyflawni pob blaenoriaeth allweddol o dan y nod hwn, a sut byddwn yn mesur eu cyflawniad, ar gael yn Atodiad A.

Pennod 7 - Fframwaith Rheoli Perfformiad

Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella yw'r fframwaith rheoli perfformiad cenedlaethol i Gymru. Mae'r Fframwaith yn cynnwys nifer o gydrannau:

- **asesiadau perfformiad blynyddol** ar gyfer gwasanaethau a swyddogaethau;
- **asesiad risgiau ar y cyd blynyddol** y cytunwyd arno rhwng y cyngor a'i reolyddion i nodi'r risgiau i gyflawni gwelliant;
- **cynlluniau corfforaethol a chyllideb** sy'n rhoi cyfrif am y risg ar y cyd a'r asesiadau perfformiad blynyddol;
- **cynllun gwella blynyddol** sy'n rhoi trosolwg o berfformiad y cyngor ac yn canolbwyntio ar ei flaenoriaethau ar gyfer gwella;
- **monitro a gwerthuso** camau gweithredu er mwyn iddynt fod yn rhan o gynllunio strategol ac asesiadau blynyddol.

Mae'r **Cynllun Gwella Corfforaethol** yn ceisio cyfuno'r cynllun corfforaethol a'r cynllun gwella, a'r cynllun hwn yw dogfen strategol drosgynnol **Fframwaith Rheoli Perfformiad** y cyngor ei hun. Mae'r Fframwaith Rheoli Perfformiad yn cynnwys lefelau corfforaethol a gwasanaeth ac mae'n berthnasol i staff ar draws yr holl sefydliad.

Mae pob Uned Wasanaeth yn paratoi **Cynllun Uned Wasanaeth** ar gyfer cyfnod o 4 blynedd, i'w ddiweddarau'n flynyddol, ac yn enwi eu mesurau perfformiad. Mae'r cynllun yn nodi'r prif amcanion gwasanaeth ar gyfer yr Uned Wasanaeth, y cysylltiadau a'r Cynllun Gwella Corfforaethol a'r camau gweithredu, y mesurau a'r targedau i'w cyflawni.

Mae'r cynlluniau hyn gyda'i gilydd yn ffurfio sail y **trefniadau gwerthuso a monitro perfformiad** personol a fydd yn berthnasol i'r holl weithwyr cyflogedig.

Mae ein cynnydd cyfredol wrth fireinio'n trefniadau rheoli perfformiad yn cynnwys:

- Parhau i wella ein proses cynllunio gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau i symleiddio'r fformat presennol a gwella cysylltiadau gydag enillion effeithlonrwydd a'r asesiad risg.
- Cysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn rhoi pecyn meddalwedd rheoli perfformiad Cymru gyfan (Ffynnon) ar waith, a fydd yn gwella'r dull o reoli gwybodaeth perfformiad a'i rhannu.
- Rheoli agenda dreigl ar gyfer monitro perfformiad, ac mae adroddiadau ar y cyd ar berfformiad ariannol a gwasanaethau yn cael eu cynhyrchu lle bo'n hynny'n bosib.
- Datblygu arweiniad rheoli perfformiad ar gyfer swyddogion ac aelodau. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth ymarferol a rhestrau gwirio ar osod targedau.
- Profi amrediad o Ddangosyddion Perfformiad Craidd a Strategol Cenedlaethol a sefydlu rhaglen a rhestr wirio i wirio cywirdeb, prosesau a systemau casglu data.

Mae rhai **heriau a chyfleoedd ar gyfer y dyfodol** yn cynnwys:

- Gwella ein proses cynllunio busnes ymhellach drwy geisio cryfhau'r cyflinio rhwng y ganolfan gorfforaethol a'r meysydd gwasanaeth yn ogystal â phrosesau risg, arian, rhaglenni/prosiectau a chynllunio perfformiad.
- Dal ati i sicrhau bod ein gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn effeithiol, a'i fod yn cysylltu'n effeithiol â'r agenda ar y cyd a nodwyd yn adroddiadau *Creu'r Cysylltiadau a Beecham*, a chyda datblygiad y Byrddau Gwasanaethau Lleol.
- Adolygu ein dangosyddion perfformiad lleol i sicrhau bod y rhain yn parhau i fod yn briodol.
- Adolygu enghreifftiau o welliant parhaus a fydd yn helpu i greu'r amgylchedd iawn ar gyfer gwelliant parhaus ac yn cydnabod pwysigrwydd pobl wrth gyflawni gwelliant. Dylai unrhyw fodel fod o gymorth wrth nodi meysydd gwella, achosion unrhyw faterion ac atebion realistig.
- Ceisio rhoi Cytundebau Gwella ar waith sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau lleol fel modd o fynd i'r afael ag amrywiaethau perfformiad ledled Cymru.
- Ymgorffori cynaladwyedd a chydraddoldeb yn ein trefniadau gwasanaeth a chynllunio corfforaethol.
- Cyfrif am unrhyw newidiadau a wneir i Raglen Cymru ar gyfer Gwella, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys posibilrwydd sefydlu safonau gofynnol cenedlaethol a mesurau perfformiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Pennod 8 - Rheoleiddio, Trosolwg a Chraffu

Archwiliadau ac Arolygiadau

Mae pob cyngor yn destun archwiliadau ac arolygiadau gan y rheolyddion er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gwella, y glynir at weithdrefnau a bod cynghorau'n gadarn o ran cyllid ac yn gweithredu arferion rheoli effeithiol ac effeithlon. Mae'r rheolyddion yn cynnwys:

- **Swyddfa Archwilio Cymru (SAC).**
- **Price Waterhouse Coopers (PwC, ein harchwilwyr allanol).**
- **Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC).**
- **Estyn - yr Arolygiaeth Addysg.**

Mae'r archwiliadau a'r arolygiadau hyn yn bwysig i ni am 2 brif reswm:

- Maent yn cadarnhau bod ein hymagweddau a'n gweithdrefnau'n briodol, yn gadarn ac yn effeithiol.
- Nodir y meysydd i'w gwella.

Bob blwyddyn, mae'r rheolyddion yn ymgymryd ag amrywiaeth o archwiliadau ac arolygiadau newydd yn ogystal ag olrhain archwiliadau ac arolygiadau blaenorol i sicrhau bod argymhellion blaenorol wedi cael eu cyflawni. Diffinnir y meysydd i'w harchwilio a'u harolygu bob blwyddyn fel "Asesu Risgiau ar y Cyd" sy'n golygu bod y rheolyddion a'r cyngor yn trafod ac yn cytuno ar feysydd perygl a phwysig a lle mae angen gwella a chymorth i gyflawni gwelliant.

Mae cynghorau'n sefydliadau mawr a chymhleth sy'n cyflwyno amrywiaeth eang o wasanaethau i nifer mawr o bobl ac mae meysydd i'w gwella o hyd.

Archwiliadau, Arolygiadau ac Adolygiadau a Gwblhawyd 2007/08

Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Chwaraeon ac Adloniant

Mae Dinas a Sir Abertawe yn ymrwymedig i gyflawni targedau uchelgeisiol Llywodraeth Cynulliad Cymru i annog **'Mwy o bobl i fod yn Fwy Actif, yn Amlach.'** Adolygwyd ymagwedd y cyngor at ddiwallu'r nodau hyn gan Swyddfa Archwilio Cymru, a daethpwyd i'r casgliad bod: 'y cyngor wedi datblygu ymagwedd strategol gadarn at gynyddu gweithgareddau corfforol'. Er mwyn bod yn effeithiol, prif argymhelliad yr adolygiad oedd yr awgrym y dylid integreiddio'r strategaeth ar draws y cyngor cyfan a'i bartneriaid. Bydd y camau gweithredu ar gyfer 2008/09 yn canolbwyntio ar weithio tuag at yr integreiddio hwn a chwblhau blwyddyn 1 cynllun gweithredu'r strategaeth gorfforol Dringo'n Uwch a datblygu systemau i fesur cynnydd.

Adolygiad Price Waterhouse Coopers o e-Lywodraeth

Yn dilyn trafodaeth yn y cyngor, gofynnwyd i PwC i gyflawni adolygiad o rai agweddau penodol ar raglen e-Lywodraeth y cyngor. Er y nodwyd methodoleg gadarn ac ymagwedd reoli rhaglenni yn yr adolygiad, codwyd materion ganddo o ran meysydd megis arfarnu opsiynau, asesu budd-daliadau a chynnwys aelodau. Nodwyd y pwyntiau hyn a'u cynnwys mewn Cynllun Gweithredu a gyflwynwyd i'r Cabinet.

Archwiliadau, Adolygiadau ac Arolygiadau sydd ar waith neu'n arfaethedig 2008/09

- Cyfrifon ariannol
- E-lywodraeth
- Cyflog cyfartal
- Uned Hydwythedd ar y Cyd
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion
- Rheoli Asedau
- Gwasanaethau Cynllunio
- Trefniadau ymddiriedolaeth yn y gwasanaeth hamdden
- Gwrthdodi (dilyniant)
- Arolygiad y Tîm Troseddu Ieuencid

Protocol ar y cyd ar gyfer cyflawni Gwaith Archwilio ac Arolygu

Mae'r cyngor, SAC a PwC wedi datblygu protocol ar y cyd i sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd yn effeithlon, gyda'r effaith fwyaf buddiol posib.

Mae'r protocol yn amlinellu'r ffordd rydym yn gweithio gyda rheolyddion ac arolygiaethau eraill. Mae'n cynnwys yr holl waith archwilio ac arolygu y cytunwyd arno fel rhan o'r Cynllun Rheoleiddio yn ogystal â gwaith mandad cenedlaethol ac unrhyw waith perfformiad arall a gyflawnir gan SAC.

Trosolwg a Chraffu

Beth yw Trosolwg a Chraffu

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gael trefniadau gweithredol yn eu lle, sy'n golygu bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar ran y cyngor ar y mwyafrif o faterion pwysig gan y Cabinet sy'n cynnwys hyd at ddeg o gynghorwyr Abertawe. Mae'r Ddeddf hefyd wedi cyflwyno swyddogaeth Trosolwg a Chraffu i Lywodraeth Leol sy'n ceisio:

- Cryfhau atebolrwydd am benderfyniadau a pherfformiad;
- Sicrhau bod anghenion trigolion a grwpiau cymunedol yn cael eu hadlewyrchu ym mholisiau'r cyngor drwy gynnwys yr aelodau a'r cyhoedd yn fwy wrth wneud penderfyniadau a llunio polisiau;
- Cefnogi, hyrwyddo a datblygu rôl arweinyddiaeth gymunedol y Cyngor.

Gwneud Abertawe'n lle gwell yw nod cyffredinol craffu a throsolwg yn ogystal â gofalu bod gwasanaethau'n ymateb i anghenion pobl. Mae swyddogaeth graffu a throsolwg adeiladol ac effeithiol sy'n gweithio ar draws ffiniau sefydliadau ac yn cydweithio â'r gymuned hefyd wrth wraidd gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Cyflawnir trosolwg a chraffu gan gynghorwyr nad oes ganddynt swyddi cabinet o fewn y cyngor. Mae pob un o'r Byrddau Trosolwg a Chraffu hyn yn cadw llygad ar agweddau gwahanol bolisiau a gwasanaethau'r cyngor er mwyn sicrhau bod y cyngor yn cyflawni'i nodau. Cyflawnir gwaith trylwyr hefyd drwy adolygiadau manwl ac, am bob adolygiad bydd y byrddau'n casglu ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys barn y gymuned, ac yn cynnig gwelliannau.

Adolygiadau a Gynhaliwyd yn 2007/08

Cwblhawyd pum adolygiad manwl y llynedd. Gellir gweld yr adroddiadau llawn ar y wefan Trosolwg a Chraffu www.swansea.gov.uk/scrutiny. Rhoddir crynodeb o bob adolygiad isod:

Defnydd y Cyngor o Ymgynghorwyr

Sefydlwyd yr adolygiad yng nghyd-destun Rhaglen Wella'r cyngor ei hun ac agenda *Creu'r Cysylltiadau* Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nod yr arolwg hwn oedd gwerthuso cynnwys ymgynghorwyr ar draws y cyngor a gwneud argymhellion i wella'r broses o gomisiynu ymgynghorwyr, ynghyd â'i chanlyniadau a'i heffeithiolrwydd. Yn ystod yr adolygiad, casglwyd dystiolaeth ar draws y gyfarwyddiaeth am lefel y defnydd o ymgynghorwyr, y costau a diben yr ymgynghori. Rhoddwyd pymtheg o argymhellion gerbron y cabinet yn cynnwys materion megis creu cronfa ddata sgiliau o swyddogion y gellid eu secondio fel ymgynghorwyr mewnol a fyddai'n rhannu gwasanaethau ymgynghori ar draws awdurdodau cyfagos a rhyngddynt, a gwella monitro a gwerthuso'r gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau allanol yn gorfforaethol.

Mae copi o'r adroddiad ar gael yn: www.swansea.gov.uk/scrutiny

Rhaglen e-Lywodraeth y Cyngor

Cyflawnwyd yr adolygiad hwn er mwyn ymateb i bryderon yn ymwneud â chyflawni targedau budd-daliadau a chynilion Cam 1 y rhaglen. Nod yr adolygiad oedd darparu cyngor a gwersi a ddysgwyd er mwyn cynorthwyo effeithiolrwydd y cyngor wrth ymgymryd â chontractau a phrosiectau mawr mewn blynyddoedd i ddod. Casglwyd ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys cyfweiliadau gyda Chyfarwyddwyr Corfforaethol, Capgemini, Undebau Llafur ar y cyd, adroddiad y Person Annibynnol Dynodedig a chynrychiolaeth gan Deloitte. Cydnabu canfyddiadau'r Bwrdd Craffu Perfformiad yr angen clir i foderneiddio systemau'r cyngor, ond amlygodd y meysydd lle gellid fod wedi gwella'r broses. Rhoddwyd naw argymhelliad gerbron y cabinet, yn cynnwys nifer o agweddau ar reoli a chyflwyno prosiect ar raddfa fawr.

Mae copi o'r adroddiad ar gael ar: www.swansea.gov.uk/scrutiny

Amcangyfrif o'r Boblogaeth a'r Cyfrifiad

Cynhaliwyd adolygiad o amcangyfrifon poblogaeth yn seiliedig ar ganlyniadau cyfrifiad 2001, a'r paratoi ar gyfer cyfrifiad 2011, gan y Bwrdd Craffu Arweinyddiaeth Gymunedol. Nod yr adolygiad oedd nodi ffyrdd o wella cyflwyno'r amcangyfrifon poblogaeth gwell a chael canfyddiadau mwy cywir gan gyfrifiad 2011. Roedd yr adolygiad hefyd yn ystyried yr effaith caiff amcangyfrifon poblogaeth ar lefelau ariannu'r cyngor. Mae cywirdeb arolwg y Cyfrifiad yn hanfodol i gynllunio, datblygu a chyflwyno gwasanaethau lleol, dyrannu adnoddau a gwneud penderfyniadau. Ymhlith canfyddiadau'r bwrdd roedd materion rhannu gwybodaeth o fewn y cyngor a chyda chyrrff allanol, a chysylltu â chymunedau er mwyn cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r cyfrifiad. Rhoddwyd saith argymhelliad gerbron y cabinet, yn cynnwys datblygu gwell ffyrdd o gynnwys pobl a rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau eraill, a chynghor i Swyddfa'r Ystadegau Gwladol (ONS) ar sut y gallai wella'r modd y mae'n cyflwyno cyfrifiad 2011.

Mae copi o'r adroddiad ar gael yn: www.swansea.gov.uk/scrutiny

Presenoldeb mewn ysgolion

Roedd y Bwrdd Craffu Addysg a Dysgu Gydol Oes yn teimlo y gallai gyfrannu'n gadarnhaol at wella presenoldeb mewn ysgolion yn Abertawe drwy adolygu'r pwnc hwn. Yr amcanion oedd cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â phresenoldeb mewn ysgolion ac ystyried a oedd gwaith lleol ar wella presenoldeb yn cael ei gefnogi gan ddata tuedd. Wrth gwblhau'r adolygiad, nodwyd ffactorau allweddol a all effeithio ar bresenoldeb mewn ysgolion gan y bwrdd, a'i bod yn bosib i ysgolion unigol ddefnyddio gwahanol ddulliau i fynd i'r afael ag absenoldeb. Rhoddwyd pum argymhelliad gerbron y cabinet i'w hystyried fel cynigion a allai wella presenoldeb.

Mae copi o'r adroddiad ar gael yn: www.swansea.gov.uk/scrutiny

Gweithio gyda'r Gymuned i Leihau Troseddu

Barn y cynghorwyr fu'n ymgymryd â'r gwaith hwn oedd bod angen i'r heddlu, asiantaethau partner a'r cyhoedd weithio'n agos â'i gilydd i ddatrys problemau troseddu ac anhrefn a gwella'r ymdeimlad o ddiogelwch mewn cymunedau. I'r perwyl hwn, cyflawnwyd adolygiad gan y bwrdd er mwyn nodi'r ffordd orau i'r gymuned ymwneud â lleihau troseddu yn Abertawe. Cynhaliwyd nifer o arolygon a chyfweliadau er mwyn casglu tystiolaeth gan unigolion a sefydliadau sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol. Roedd effeithiolrwydd cyfarfodydd 'Partneriaid a Chymunedau Ynghyd' (PACT) yn ffactorau allweddol wrth ganiatáu i bartneriaid fynegi pryderon ynghylch diogelwch cymunedol ac fel fforwm er mwyn dod o hyd i atebion i faterion cymunedol. Roedd yr argymhellion yn ystyried cyflwyno Panel Atebolrwydd Lleol (LAP) a'r awgrymiadau a wnaed i bartneriaeth PACT ar ddatblygu fframwaith perfformiad i wella'r bartneriaeth ac annog cynnwys y cyhoedd ymhellach.

Mae copi o'r adroddiad ar gael yn: www.swansea.gov.uk/scrutiny.

Mae'r adolygiadau hyn yn cael eu dilyn yn agos ar hyn o bryd er mwyn monitro rhoi'r argymhellion y cytunwyd arnynt ar waith, a mesur effaith gwaith trosolwg a chraffu.

Adolygiadau Polisiâu a Gwasanaethau sydd wedi'u hamserlenni ar gyfer 2008/09

Mae'r cynghorwyr sy'n aelodau o'r byrddau wedi nodi'n ddiweddar y meysydd gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod, a phynciau ar gyfer adolygiadau manwl. Dyma hwy:

- Effeithiau Tlodi Plant ar Gyrhaeddiad Addysgol
- Gwella Cyflwyno Gwasanaethau Integredig yn enwedig i blant 8 i 13 oed.
- Datblygu Cynllun Gweithredu Beicio
- Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf
- Cludiant Cymunedol y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaethau Seibiant i Bobl Hŷn.
- Cynllunio Ariannol Tymor Canolig.
- Mesur a Rheoli Perfformiad

Bwriad yr adolygiadau hyn fydd casglu amrywiaeth eang o farn a thystiolaeth yn y meysydd hyn er mwyn medru cynnig gwelliannau. Os oes diddordeb gennych yn unrhyw un o'r pynciau uchod, ac yr hoffech gyfrannu at yr adolygiadau hyn, cysylltwch â ni. Byddwn yn cysylltu â chi pan fydd cyfleoedd penodol i gymryd rhan yn codi.

Yn ogystal ag adolygiadau manwl, mae agweddau eraill ar Drosolwg a Chraffu yn cynnwys:

- Briffio cynghorwyr ynghylch polisiau / meysydd gwasanaeth allweddol
- Holi Aelodau'r Cabinet a Chyfarwyddwyr / Penaethiaid Gwasanaeth ynghylch materion sy'n achosi pryder
- Monitro Perfformiad a Phrosiectau
- Cyfrannu at archwiliadau a gweithgareddau archwilio drwy fonitro'r broses o roi'r argymhellion ar waith.
- Dilyn yn agos yr argymhellion a wnaed gan Adolygiadau Trosolwg a Chraffu blaenorol

Uned Trosolwg a Chraffu

Am fwy o wybodaeth, ewch i'n gwedudalennau yn www.swansea.gov.uk/scrutiny.
I gysylltu â'r Tîm, e-bostiwch scrutiny@swansea.gov.uk neu ffoniwch **01792 637732**.

Pennod 9 - Cyllid a Chostau

Wrth ddiwallu anghenion a galwadau ein dinasyddion, ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid ar draws amrywiaeth eang o wasanaethau y mae'r cyngor yn gyfrifol amdanynt, mae angen lefel sylweddol o refeniw a gwariant cyfalaf blynyddol. Lle mae gan weithredoedd a gwelliannau oblygiadau cost yn y flwyddyn gyfredol, darperir ar gyfer y rhain yn y gyllideb. Cyfrifir am weithredoedd a gwelliannau yn y blynyddoedd i ddod naill ai yn y cynllun ariannol tymor canolig neu byddant yn cael eu hystyried mewn ystyriaethau cyllideb yn y dyfodol. Isod, ceir crynodeb bras o sut mae'r awdurdod yn bwriadu gwario'r arian hwn yn ystod 2008/09.

Setliad Llywodraeth Leol

Ychydig iawn o newid a gafwyd yn setliad eleni o'r setliad dros dro a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2007. Derbyniodd y cyngor gynnydd o 2.4% yn y Grant Cynnal Refeniw o'i gymharu â'r cynnydd cyfartalog o 2.3%.

Gwariant Refeniw

Gwariant yw hwn gan y cyngor ar gostau rhedeg gwasanaethau o ddydd i ddydd, gan gynnwys cyflogau a thaliadau, costau cynnal adeiladau a cherbydau ynghyd ag ad-dalu dyledion yn flynyddol. Cyfanswm gwariant refeniw net blynyddol y cyngor ar gyfer 2008/09 am gyflwyno gwasanaethau a chyfraniadau i gyrff eraill megis presaeptau Cyngorau Cymuned a'r Awdurdod Tân ar y Cyd yw £361.635m, a bydd hyn yn cael ei ariannu'n bennaf drwy Grant Cynnal Refeniw a Threth y Cyngor.

Gwariant Cyfalaf

Clustnodwyd £50.442m gan y cyngor i'w wario ar wariant cyfalaf ar gyfer 2008/09. Mae'r swm hwn, er ei fod wedi gostwng o'i gymharu â'r llynedd, yn parhau i gyfateb i raglen sylweddol ar gyfer gwella a fydd yn cael ei wario ar adnewyddu Neuadd y Ddinas, addasiadau anghenion arbennig, gwelliannau i eiddo'r cyngor a gwaith adfer a chyn agor i Dir John.

Proses y Gyllideb

Er mwyn i'r cyngor fyw o fewn ei adnoddau a chyflawni cyllideb fantoledig yn y dyfodol, mae'r canlynol wedi'u hystyried a'u hadolygu:

- Anghenion gwario anochel a hanfodol.
- Risgiau ac ansicrwydd sy'n wynebu'r awdurdod.
- Adnoddau tebygol.
- Rhagolwg o sefyllfa gyffredinol y gyllideb bob blwyddyn.
- Opsiyau cynilo er mwyn cyflawni cyllideb fantoledig bob blwyddyn.

Mae'r pwysau'n cynnwys gwariant ar ofal cymdeithasol, y codiad mewn ffioedd cartrefi gofal uwchlaw chwyddiant, gwasanaethau addysg a chynnydd mewn costau tanwydd. Mae'r cyngor wedi sefydlu cronfa arian wrth gefn sy'n ddigonol i fynd i'r afael â risg yn y flwyddyn, cynnydd mewn ffioedd a thaliadau dethol a chynnydd yn Nhreth y Cyngor yn unol â chwyddiant.

Mae Abertawe, fel cyngorau eraill yng Nghymru, yn wynebu sefyllfa ariannol anodd iawn yn 2008/09 a hyd y gellir ei ragweld. Bydd cynnydd annisgwyl mewn costau ynni a chwyddiant yn galw am wneud gostyngiadau digolledol ym mhob adran o gyllideb y cyngor. Gall hyn olygu y bydd yn rhaid adolygu rhaglenni, prosiectau a mentrau gwasanaeth y cytunwyd arnynt yn flaenorol, a'u cwtogi.

Serch hynny, gwnaed cynnydd sylweddol wrth ddatblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig dros y flwyddyn ddiwethaf. Er mwyn mynd â'r gwaith yn ei flaen, cytunir ar gynlluniau a graddfeydd amser ar gyfer cyflawni targedau ac er mwyn datblygu ymhellach y berthynas rhwng cynllunio gwasanaethau a chynllunio ariannol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys y cynigion / targedau canlynol i leihau costau absenoldeb; cynyddu ffioedd a thaliadau a; chostau staffio is.

Nod 1 – Yr Amgylchedd a Chymunedau

Mae'r blaenoriaethau sy'n cefnogi'r nod hwn yn cynnwys glanhau a chynnal a chadw'r strydoedd, cynyddu compostio ac ailgylchu a chyflenwad digonol o dai fforddiadwy o safon.

- Parhau â'r arian ar gyfer y Strydlu a'r Timau Gweithredu Amgylcheddol Cymdogaethau (NEAT) llwyddiannus.
- Mae arbedion yn cynnwys gostyngiad sylweddol mewn costau tirlenwi yn codi o'r ymarfer ail-dendro diweddar.
- Mae risg y bydd cosbau ariannol os nad ydym yn bwrw'n targedau i gynyddu ailgylchu gwastraff cartref neu leihau swm y gwastraff a gynhyrchir.
- Clustnodir gwariant cyfalaf ar gyfer amgáu / atgyweirio eiddo traddodiadol ac anhraddodiadol, £4.7m, amnewid ffenestri tai cyngor £980K, rhaglen ailwifro £710K a rhaglen adnewyddu boeleri £1.3m.

Nod 2 – Yr Economi

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer y nod hwn yn cynnwys system gludiant integredig, annog defnydd cynyddol o gludiant cyhoeddus, gwella a datblygu Canol y Ddinas a gwella sgiliau ar gyfer dysgu, gwaith a bywyd.

- Mae'r cynnydd ar adfywio Canol y Ddinas yn datblygu'n gyflym.
- Dyrennir gwariant cyfalaf gwerth dros £500mil ar gyfer Gwelliannau Craidd Canol y Ddinas ac ailddatblygu, fel yn y blynyddoedd blaenorol.

Nod 3 - Plant a Phobl Ifanc

Mae blaenoriaethau yn cynnwys AoS 2020, gwella Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a lleihau effaith tlodi ar Blant a Phobl Ifanc.

- Mae cyflwr gwael ysgolion yn parhau i ddarparu risg i'r cyngor ac felly hefyd yr effaith ganlynol ar safonau. Nid yw rhai ysgolion yn diwallu anghenion disgyblion ac mae niferoedd yn disgyn mewn rhai ysgolion. Bydd y rhaglen AoS 2020 yn cael ei chyflwyno dros y tymor hir i fynd i'r afael â materion cyflwr yn ogystal â darparu'r nifer priodol o leoedd i ateb y galw. Bydd gwaith adfer a chynnal a chadw yn digwydd fel bo arian yn caniatáu.
- Nodwyd nifer o bwysau ariannol a chynnydd pellach yn nifer y plant ag anghenion dysgu ychwanegol, plant sy'n derbyn gofal, recriwtio/cadw staff cymdeithasol a'r gwaith a gofynion deddfwriaethol newydd. Er mwyn mynd i'r afael â'r gofynion hyn o fewn y gyllideb, bydd angen newid rhai meysydd gweithgarwch i adlewyrchu'r galw hysbys am y gwasanaethau. Mae'r meysydd allweddol i'w hystyried yn cynnwys yr angen am ddatblygu trefniadau pellach ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

Nod 4 - Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae blaenoriaethau'n cynnwys ailffurfio ac ail-lunio iechyd a rhoi'r agenda iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar waith.

- Nodwyd pwysau ym maes gofal cymdeithasol, yn enwedig Gwasanaethau Plant. Gwnaed ymdrech sylweddol i wella monitro'r gyllideb, mwyafu incwm a cheisio effeithlonrwydd lle bo hynny'n bosib.
- Mae gwariant yn parhau i gael ei glustnodi ar gyfer amrywiaeth o fentrau lles, gan gynnwys gweithgareddau corfforol ledled y ddinas, parhau i ddatblygu'r rhaglen ddiwylliant, adloniant a hamdden a gwaith hybu iechyd.

Nod 5 - Adnoddau

Mae'r blaenoriaethau a bennwyd ar gyfer y nod hwn yn cynnwys Rhaglen y Gweithlu, gwella mynediad i ofal cwsmeriaid a gwell cynllunio ariannol.

- Cafwyd cynnydd ar y Setliad Cyflog Cyfartal gan y cyngor.
- Bydd y gyllideb e-Lywodraeth yn lleihau yn ystod 2008/09 i adlewyrchu diwedd y rhaglen hon. Mae'r gyllideb ar gyfer 2008/09 yn darparu costau rhedeg y Ganolfan Gyswilt am flwyddyn gyfan.

Pennod 10 - Crynodeb o Berfformiad 2007/08

Mae cyflawni gwelliant parhaus yn nod allweddol ar gyfer y cyngor hwn. Dengys y perfformiad yn 2007/08 yn gyffredinol bod, 63% o'r mesurau perfformiad naill ai wedi gwella, neu'r un peth â'r llynedd neu maent eisoes yn perfformio ar eu gorau. Gwelwyd meysydd gwella ar draws pob un o'r prif feysydd gwasanaeth megis:

- Mae'r amser cyfartalog i brosesu hawliadau Budd-dâl Tai newydd yn parhau i wella o 22.79 diwrnod yn 2006/07 i 17.48 diwrnod yn 2007/08.
- Mae canran treth y cyngor a gasglwyd yn ystod 2007/08 sef 96.39% yn rhagori ar ganran gwirioneddol y llynedd, 96.23%, a'r targed o 96.25%
- Roedd canran y disgyblion yn ysgolion yr awdurdod yn yr haf blaenorol a gwblhaodd 5 TGAU neu fwy gyda gradd A* - C, neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfatebol, wedi perfformio'n dda ar 55.60% yn erbyn sail Cymru Gyfan o 54.2%. Rhagorodd y canlyniad ar y targed sef 52.70% ac ar ganran gwirioneddol y llynedd sef 51.10%.
- Mae'r dysgwyr sy'n gadael Hyfforddiant Cyflogaeth gyda chanlyniad cadarnhaol yn parhau i gynyddu mewn perfformiad gydag 86% yn erbyn y targed o 75%.
- Cododd canran y disgyblion a waharddwyd yn barhaol sy'n derbyn rhwng deg awr a phump ar hugain awr o hyfforddiant arall o 13% yn 2006/07 i 57.14% yn 2007/08. Bydd nifer o faterion yn effeithio ar allu disgybl i dderbyn y ddarpariaeth a gynigir, a bydd y perfformiad yn newid o flwyddyn i flwyddyn oherwydd nifer bach y disgyblion sy'n rhan o hyn.
- Mae canran y cwynion am sŵn yr ymatebwyd iddynt o fewn 5 niwrnod gwaith wedi cynnal perfformiad uchel o 99.40% yn erbyn targed o 98.50% o'i gymharu â 97.60% ar gyfer 2006/07.
- Roedd y canran o wastraff dinesig a gafodd ei aildddefnyddio neu ei ailgylchu wedi rhagori ar y targed o 22.50% a chanran gwirioneddol y llynedd sef 21.20%
- Roedd canran ceisiadau aelwydydd a bennwyd o fewn 8 wythnos yn ystod y flwyddyn yn 70.5% ac mae'n braf nodi y rhagorwyd ar ffigur gwirioneddol y llynedd sef 65.7%.
- Cafwyd cyfradd ymateb uchel i ganran yr achosion graffiti blaenoriaeth a lanhawyd o fewn saith niwrnod, sef 98.70% o'i gymharu â'r targed o 93%.
- Gwelwyd gwelliant mewn perfformiad yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, a'r nifer yn 5,003 yn erbyn gwerth y llynedd sef 4,647.
- Cafwyd gwelliant sylweddol eto yn nifer y teuluoedd digartref gyda phlant sydd wedi defnyddio llety gwely a brecwast yn ystod y flwyddyn, ac eithrio mewn argyfwng, a hynny'n 5 am y flwyddyn yn erbyn targed o 25.

- Mae nifer y cartrefi gwag yn parhau i wella, gyda 316 am y flwyddyn ac mae'n welliant nodedig yn erbyn 416 ar gyfer 2006/07 ac mae hyn gyfwerth â 2.31% o gyfanswm holl stoc y cyngor.
- Cafwyd canlyniad da i'r gyfradd gohirio trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol y 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed, sef 6.78 sy'n rhagori ar y targed o 9.
- Mae canran yr achosion agored o blant ar y gofrestr amddiffyn plant a chanddynt weithiwr cymdeithasol a ddyrannwyd yn 100% am y flwyddyn, gyda lefelau dyrannu'n parhau'n uchel yn erbyn 93.9% ar gyfer 2006/07.

Serch hynny, ceir meysydd lle mae angen gweithredu pellach er mwyn gwella perfformiad. Mae'r dangosyddion canlynol wedi dangos dirywiad ym mherfformiad neu wedi methu â chyflawni'r targed.

- Roedd canran y cwynion yr ymatebwyd iddynt o fewn 10 niwrnod yn 97.96%, gan gyflawni'r targed a ragnodwyd sef 90%. Fodd bynnag, methodd y canlyniad â chyflawni perfformiad y llynedd sef 99.35% o drwch blewyn.
- Canlyniad canran y disgyblion sy'n gymwys am asesiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd, a bennwyd gan Asesiad yr Athro/Athrawes oedd 72.60%, gan fethu â chyrraedd canlyniad 2006/07 sef 73.85% a'r targed o 74%. Ond, mae'r tueddiad ar gyfer y dangosydd hwn dros y pedair blynedd wedi bod ar i fyny ac yn cyd-fynd â chanlyniadau Cymru Gyfan.
- Mae canran y busnesau risg uchel a oedd yn debygol o gael archwiliad rhaglunedig a oedd yn amodol ar weithgaredd gorfodi arall ar gyfer Safonau Masnach wedi gostwng mewn perfformiad o 95% i 90%. Mae hwn oherwydd lefelau staff a salwch a ddylai wella yn y dyfodol.
- Methodd nifer y ceir sy'n defnyddio gwasanaethau parcio a theithio â chyrraedd y targed o 337,000 a chafwyd canlyniad o 314,612. Fodd bynnag, mae'n braf nodi bod y canlyniad wedi rhagori'n sylweddol ar y perfformiad o 267,827 ar gyfer 2006/07.
- Mae nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon dan do yn ystod y flwyddyn y 1,000 o'r boblogaeth yn 766, ac nid oedd wedi cyrraedd y targed o 943 na'r gwerthoedd ar gyfer 2006/07 sef 924.
- Er nad oedd perfformiad cyfran yr anheddau preifat anaddas a wnaed yn addas, a gaewyd neu a ddymchwelwyd drwy weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol, sef 5.01, wedi cyrraedd ffigur gwirioneddol y llynedd sef 6.92 na'r targed o 5.5, roedd y canlyniad yn ffafriol yn erbyn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.
- Roedd canran y cleientiaid gyda chynllun gofal ar 31 Mawrth y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu ac a adolygwyd yn ystod y flwyddyn yn 63% ac nid oedd wedi cyrraedd y ffigur gwirioneddol o 81.3% ar gyfer 2006/07 a'r targed o 70%. Mae maes gwasanaeth mwy wedi'i gynnwys ac mae hyn wedi cael effaith amlwg ar berfformiad.

Ceir dadansoddiad manylach o berfformiad y cyngor ar gyfer y cyfnod 2007/08 yn y tablau data yn Atodiad A.

Pennod 11 - Sut i gael mwy o wybodaeth

Cynllun Gwella Corfforaethol

Mae'r Adran Perfformiad a Chynllunio Strategol wedi paratoi'r ddogfen hon ar ran y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar gynnwys y cynllun hwn, gallwch gysylltu â thîm yr Adran Perfformiad a Chynllunio Strategol drwy:

- E-bostio improvement@swansea.gov.uk
- Ffônio **01792 636852**
- Gellir gweld Rhan 1 y Cynllun Gwella yn www.swansea.gov.uk/index.cfm?articleid=155

Y Cynllun Cymunedol

Os hoffech wybod mwy am y Cynllun Cymunedol, yna gallwch wneud hynny ar wefan y Cyngor a chlicio ar y ddolen ganlynol:

- www.swansea.gov.uk/index.cfm?articleid=11050

Cysylltwch â'r Tîm Strategaethau Cymunedol drwy:

- E-bostio communitystrategies@swansea.gov.uk
- Ffônio **01792 636292**

Creu'r Cysylltiadau

Am ragor o wybodaeth am fenter "Creu'r Cysylltiadau" Llywodraeth Cynulliad Cymru, ewch i'r wefan drwy glicio ar y ddolen ganlynol.

- <http://new.wales.gov.uk/about/strategy/makingtheconnections/?lang=cy>

Dyfodol Abertawe

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar y wefan yn www.abayoflife.com

Cynlluniau Cydraddoldeb

- www.swansea.gov.uk/index.cfm?articleid=1917

Datblygu Cynaliadwy

- <http://www.swansea.gov.uk/index.cfm?articleid=4275>

Wyddech chi?

Mae perfformiad yn cael ei fonitro bob chwarter, a chyflwynir adroddiadau i'r Cabinet. Os hoffech wybod mwy am hyn, ewch i'n gwefan a chwilio am y ddolen ar gyfer Cynghorwyr a Democratiaeth.

Ceir y newyddion diweddaraf ar ein gwefan ynghylch Abertawe, er enghraifft, cynnydd prosiectau, materion cyflwyno gwasanaethau, gweithgareddau a digwyddiadau.

Mae gennym ddiwylliant agored a thryloyw ac rydym yn croesawu barn y cyhoedd wrth adolygu ein polisiâu. Cyflawnir adolygiadau gan ein Byrddau Craffu sy'n cynnwys Aelodau Etholedig yn bennaf. Os hoffech wybod mwy am eu rhaglenni gwaith neu ddyddiadau ac amserau cyfarfodydd (sy'n agored i'r cyhoedd), cysylltwch â'n Swyddogion Craffu ar **01792 637257**, neu ewch i'n gwefan www.swansea.gov.uk/scrutiny.

Atodiad A - Cynlluniau Gweithredu Blaenoriaethau Allweddol

Nod 1 - Gwella a diogelu ein hamgylchedd a gwneud cymunedau'n fwy diogel er mwyn i bawb gael lle gwych i fyw ynddo.

Blaenoriaeth Allweddol	Sicrhau bod yr holl wasanaethau sy'n ymwneud â glanhau / cynnal a chadw strydoedd wedi'u cydlynu'n dda.
Cyfarwyddwr Arweiniol	Cyfarwyddwr Corfforaethol (Yr Amgylchedd)
Rheswm pam mae hyn yn flaenoriaeth	Mae glendid a chynnal a chadw'r strydoedd yn brif flaenoriaeth y cyhoedd, yn pennu'n glir y ffordd y mae perfformiad y cyngor yn gyffredinol yn cael ei ystyried ac yn gallu creu neu chwalu enw da. Mae'r ffordd y mae ardaloedd yn edrych hefyd yn effeithio ar hyder y gymuned, diogelwch y gymuned ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
Gweithgaredd presennol	Ar hyn o bryd mae'r swyddogaeth lanhau'n seiliedig yn bennaf ar godi sbwriel er mwyn cydymffurfio â'r Còd Ymarfer statudol. Mae timau o staff yn gweithio ar gylch wythnosol mewn ardaloedd penodol bob dydd. Ar ben hynny, mae hefyd nifer o dimau penodedig ar gyfer glanhau a chynnal a chadw canol y ddinas, glanhau traethau, cilirio baw cŵn a sbwriel a dipiwyd yn anghyfreithlon. Hefyd ceir saith Tim Gweithredu Amgylcheddol Cymdogaethau (NEAT) sy'n gweithredu ar gylch gwaith llawer ehangach ac sy'n treulio cyfnodau penodol o amser mewn wardiau gwahanol (ar rota) o leiaf dwywaith y flwyddyn. Bwriedir i'r cylch gwaith ehangach hwn ymdrin â materion cynnal a chadw ehangach er mwyn gwella ardaloedd. Cynhelir rhwydwaith y priffyrdd yn unol â'r ddeddfwriaeth briodol, ar ben hynny, lle mae adnoddau'n caniatáu, rydym yn bodloni gofynion y codau ymarfer perthnasol. Datblygir a chyflawnir rhaglenni 5 mlynedd ar gyfer y prif grwpiau o asedau, gan gynnwys ffyrdd, llwybrau troed, goleuadau a phontydd.
Canlyniad cyflawni'r flaenoriaeth	Cynyddu canfyddiad cadarnhaol y cyhoedd ynghylch glendid ardaloedd a'u diogelwch a golwg gyffredinol. Bwriedir gwella rheolaeth tir segur er mwyn cynyddu hyder cymunedau a chydweithio â chymunedau er mwyn cynyddu balchder lleol. Cyflawni sgôr Mynegai Glendid gadarnhaol a chynyddol, sef mesur perfformiad a asesir yn annibynnol a dangosydd perfformiad statudol. Gwella ansawdd yr amgylchedd lleol drwy ymagwedd fwy cynhwysfawr at olwg strydoedd yn gyffredinol. Sicrhau bod ffabrig y priffyrdd yn cael ei gynnal a'i gadw at lefel sy'n caniatáu i drefniadau glanhau fod yn effeithlon ac yn effeithiol Sicrhau bod ased y priffyrdd yn addas i'r diben ac yn gyfoes.

Camau gweithredu allweddol ar gyfer cyflwyno'r flaenoriaeth hon yn y tymor BYR (tan fis Mawrth 2009)

Camau gweithredu	Cynnal rhaglen NEAT ar gyfer y ddinas a'r sir gyfan tan fis Mawrth 2009.	Datblygu'r rhaglen ar gyfer rhoi'r fenter Trefi Taclus ar waith.	Cwblhau'r trefniadau Strydlun newydd a chyflwyno timau glanhau a chynnal a chadw mewn ardaloedd ar draws y ddinas a'r sir.
Swyddog â Chyfrifoldeb	Rheolwr Sbwriel ac Ailgylchu / Goruchwylydd - Baw Cŵn	Swyddog yr Is-adran - Rheoli Gwastraff / Swyddog Gorfodi - Rheoli Gwastraff	Pennaeth Gwasanaeth - Rheoli ac Amddiffyn yr Amgylchedd / Swyddog yr Is-adran - Rheoli Gwastraff
Canlyniad disgwyliedig	Gwella golwg amrywiaeth o fannau penodol ac ardaloedd a nodwyd gan aelodau / y gymuned	Datblygu rhaglen ar gyfer pob ward yn y ddinas a'r sir mewn cydweithrediad â rhaglen NEAT	Cwblhau trafodaethau gyda'r gweithlu i gyflwyno timau ardal generig ag amrywiaeth o sgiliau ar draws y cyngor.
Amserlenni	Cyhoeddi amserlen ar gyfer pob ward	Medi 2009. Mae cymorth grant yn parhau tan 2011.	Mawrth 2009
Meini prawf llwyddiant	Cynyddu canfyddiad cadarnhaol y cyhoedd; cydweithio'n gynyddol â chymunedau; gwella golwg tir.	Cynnwys y gymuned yn well; gwella cysylltiadau ag ysgolion, busnesau; mynediad gwell; mwy o sgiliau; ardaloedd bywyd gwylt/cynefinoedd newydd; sgorau gwell ar y Mynegai Glendid	Adborth cadarnhaol gan aelodau a'r cyhoedd; gwireddu arbedion effeithlonrwydd; sylfaen sgiliau cynyddol ar gyfer staff a goruchwylwyr; cyfranogiad cynyddol grwpiau a rhwydweithiau cymunedol.
Cerrig milltir allweddol (DP, yr hyn y gellir ei gyflwyno, etc)	Cadw at y rhaglen; Sgorau gwell i ardaloedd gan y System Rheoli Archwiliadau Amgylcheddol Lleol (LEAMS); gwella sgorau ar y Mynegai Glendid	Gwariant grant a archwiliwyd yn llwyddiannus; perfformiad yn erbyn dangosyddion a ddatblygwyd yn lleol; nifer o ddiwyddiadau a mentrau a ddatblygwyd;	Sgorau LEAMS gwell ar gyfer lleoliadau; Sgorau gwell ar y Mynegai Glendid ar gyfer ardaloedd a'r ddinas yn gyffredinol; graddau canfyddiad gwell mewn arolygon.
Adnoddau	NEAT presennol	Grant Penodol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC).	Staff presennol a staff wedi'u hadleoli i gyflawni rolau newydd staff goruchwyliol presennol.

Camau gweithredu	Cytuno ar raddfa ail gam y gwaith i adnewyddu canol y ddinas a'r gost, a sicrhau'r cynnig.	Cyflawni rhaglenni cynlluniedig ar gyfer ffyrdd cerbydau, troedffyrdd a goleuadau stryd	Cael cymeradwyaeth ar gyfer gwaith ar ffyrdd cerbydau a'i gyflawni er mwyn sicrhau grant cynnal a chadw ffyrdd lleol LICC
Swyddog â Chyfrifoldeb	Pennaeth Priffyrdd / Pennaeth Gwasanaeth - Rheoli ac Amddiffyn yr Amgylchedd / Cydlynnydd Adfywio	Arweinydd yr Is-adran Cynnal a Chadw Cynlluniedig / Prif Reolwr Goleuadau (Gweithrediadau)	Arweinydd yr Is-adran Cynnal a Chadw Cynlluniedig / Peiriannydd Cynorthwyl y Tim Pontydd ac Adeileddau
Canlyniad disgwyliedig	Gwaith adeiladu wedi'i gwblhau a'r grant wedi'i wario	Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r gwaith	Rhaglenni wedi'u cymeradwyo a'r holl waith wedi'i gwblhau
Amserlenni	Ebrill 2009	Mis Mawrth 2009 ac yn flwyddyn derfynol, mis Mawrth 2010	Mis Mawrth 2009 ac yn flwyddyn derfynol, mis Mawrth 2010
Meini prawf llwyddiant	Cyflwr gwell strydoedd i gerddwyr yn unig yng nghanol y ddinas	Cyflwr gwell y grŵp hwn o asedau	Ffyrdd strategol mewn cyflwr gwell
Cerrig milltir allweddol (DP, yr hyn y gellir ei gyflwyno, etc)	Lleihau'r achosion o faglu a chwymmpo	Gwelliant yn Nangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) LICC	Gwelliant yn DPI ffyrdd LICC
Adnoddau	£80-100k o fuddsoddiad gan y cyngor ac arian cyfatebol gan LICC	£3m o fuddsoddiad referniw a chyfalaf	Grant blynyddol o £890k

Camau gweithredu allweddol ar gyfer cyflwyno'r flaenoriaeth hon yn y tymor CANOLIG (Ebrill 2009 - Mawrth 2012)

Camau gweithredu	Cynnal rhaglen NEAT ar gyfer Dinas a Sir Abertawe i gyd tan fis Mawrth 2012	Datblygu'r rhaglen ar gyfer rhoi'r fenter Trefi Tacius ar waith.
Swyddog â Chyfrifoldeb	Rheolwr Sbwriel ac Ailgylchu /Goruchwylydd - Baw cŵn	Swyddog yr Is-adran - Rheoli Gwastraff / Swyddog Gorfodi - Rheoli Gwastraff.
Canlyniad disgwyliedig	Gwella golwg amrywiaeth o fannau penodol ac ardaloedd a nodwyd gan aelodau / y gymuned	Datblygu'r rhaglen ar gyfer pob ward yn y ddinas a'r sir mewn cydweithrediad â rhaglen NEAT
Amserlenni	Amserlen i'w chyhoeddi ar gyfer y flwyddyn ym mhob ward o leiaf mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd	Mae'r cymorth grant yn parhau tan fis Mawrth 2011.
Meini prawf llwyddiant	Cynyddu canfyddiad cadarnhaol y cyhoedd; cydweithio'n gynyddol â chymunedau; gwella golwg tir.	Cynnwys y gymuned yn well; gwella cysylltiadau ag ysgolion, busnesau; mynediad gwell; sgiliau gwell; ardaloedd bywyd gwylt/cynefinoedd newydd; sgorau gwell ar y Mynegai Glendid
Cerrig milltir allweddol (DP, yr hyn y gellir ei gyflwyno, etc)	Cadw at y rhaglen; Gwella sgorau LEAMS lleoliadau; Gwella sgorau ar y Mynegai Glendid	Gwariant grant a archwiliwyd yn llwyddiannus; perfformiad yn erbyn dangosyddion a ddatblygwyd yn lleoli; nifer o ddigwyddiadau a mentrau a ddatblygwyd;
Adnoddau	NEAT presennol	Grant Penodol gan LICC.

Blaenoriaeth Allweddol	Lleihau gwastraff a chynyddu ein compostio a'n hailgylchu
Cyfarwyddwr Arweiniol	Cyfarwyddwr Corfforaethol (Yr Amgylchedd)
Rheswm pam mae hyn yn flaenoriaeth	Yn ôl y gyfraith mae'n ofynnol i'r cyngor leihau swm y gwastraff bioddiraddadwy a anfonir i safleoedd tirlenwi neu wynebu dirwyon am fethu â chyflawni'r targed. Ar ben hynny, mae'r cyngor yn wynebu cost gynyddol tirlenwi gan fod y dreth dirlenwi'n cynyddu £8 y dunnell dros y tair blynedd nesaf. Gellir lleihau'r risg o fethu â chyrraedd y targedau a chael dirwyon drwy gynyddu ailgylchu gwastraff cartref neu leihau swm y gwastraff a gynhyrchir, neu'r ddau.
Gweithgaredd presennol	Mae'r cyngor yn casglu deunyddiau sych y gellir eu hailgylchu bob pythefnos o ymyl y ffordd - mae'r gwasanaeth hwn ar gael i bob cartref yn y ddinas a'r sir. Hefyd, ceshlir gwastraff cegin a gwyrdd bob pythefnos o ymyl y ffordd mewn traean o'r ddinas. Darperir pum safle amwynderau dinesig hefyd ar gyfer gwaredu gwastraff cartref neu i'w ailgylchu am ddim.
Canlyniad cyflawni'r flaenoriaeth	Cyflawni targedau'r lwfans tirlenwi; lleihau costau tirlenwi a'r dreth dirlenwi a delir; mwy o bobl yn ailgylchu; incwm cynyddol o gcontractau sy'n ymwneud â deunyddiau i'w hailgylchu; newid diwylliannol yn yr ymagwedd at wastraff a lleihau gwastraff; y cyhoedd yn cydnabod eu cyfraniad at leihau effaith bosib newid yn yr hinsawdd.

Camau gweithredu allweddol ar gyfer cyflwyno'r flaenoriaeth hon yn y tymor BYR (tan fis Mawrth 2009)

Camau gweithredu	Cyflwyno casgliadau gwastraff cegin o ymyl y ffordd yn y ddinas a'r sir <u>bob wythnos</u> , yn unol â'r cynllun cytunedig. Cyflwyno casgliadau gwastraff gwyrdd o ymyl y ffordd <u>bob pythefnos</u>	Ehangu cynlluniau ailgylchu Gwasanaeth Gwastraff Masnachol y cyngor
Swyddog â Chyfrifoldeb	Pennaeth Gwasanaeth - Rheoli ac Amddiffyn yr Amgylchedd / Swyddog yr Is-adran - Rheoli Gwastraff	Rheolwr Sbwriel ac Ailgylchu / Swyddog Gwastraff Masnachol
Canlyniad disgwyliedig	Lleihau'r gwastraff gweddilliol sy'n cael ei dirlenwi	Mwy o wastraff masnachol yn cael ei ailgylchu a llai o wastraff gweddilliol y mae angen ei waredu
Amserlenni	Mawrth 2009	Mawrth 2009
Meini prawf llwyddiant	Cadw at y rhaglen a'i chyflwyno i'r ardal erbyn mis Mai 2009	Gwell cyfranogiad a nifer cynyddol o contractau; cynnydd yn swm y gwastraff a ailgylchir; llai o wastraff gweddilliol mae angen ei waredu
Cerrig milltir allweddol (DP, yr hyn y gellir ei gyflwyno, etc)	Ionawr 2009 - ehangu i'r ardal newydd gyntaf; gwella ailgylchu; lleihau swm y gwastraff gweddilliol; cynyddu lefelau'r gwastraff sy'n cael ei gompostio Cwblhau'r ehangu erbyn mis Mai 2009	Cynnydd yn nifer y contractau
Adnoddau	Grant referniw presennol a'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy Penodol	Cyllideb referniw bresennol a'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy Penodol

Camau gweithredu allweddol ar gyfer cyflwyno'r flaenoriaeth hon yn y tymor CANOLIG (Ebrill 2009 - Mawrth 2012)

Camau gweithredu	Cyflwyno casgliadau plastigion, cardbord a thecstilau o ymyl y ffordd bob pythefnos	Gyda Chwmni Gwaredu Gwastraff y cyngor, darparu trefniadau compostio newydd er mwyn cyflawni targedau
Swyddog â Chyfrifoldeb	Pennaeth Gwasanaeth - Rheoli ac Amddiffyn yr Amgylchedd / Swyddog yr Is-adran - Rheoli Gwastraff	Swyddog Prosiectau Gwastraff
Canlyniad disgwyliedig	Llai o wastraff gweddilliol yn cael ei dirllenwi neu ei drin. Canran y gwastraff trefol sy'n cael ei ailgylchu yn cynyddu.	Darparu safle trwyddedig newydd ar gyfer rhenciau agored ac aeddfedu gwastraff wedi'i gompostio o fewn cynwysyddion.
Amserlenni	Mai 2010	Gorffennaf 2009
Meini prawf llwyddiant	Cyflwyno'r cynllun ar draws yr ardal.	Cael caniatâd cynllunio a thrwydded wastraff ar gyfer y safle. Trosglwyddo'r trefniadau presennol o Dir John
Cerrig milltir allweddol (DP, yr hyn y gellir ei gyflwyno, etc)	Canrannau o wastraff trefol sy'n cael ei ailgylchu a'i dirllenwi	Mwy o wastraff yn cael ei gompostio
Adnoddau	Cyllidebau refereniw presennol a'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy	Cyllideb gyfalaf wedi'i chlustnodi; cyllidebau refereniw presennol; Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy

Blaenoriaeth Allweddol	Cynyddu'r cyflenwad tai fforddiadwy o safon a gweithio tuag at wella tai'r cyngor hyd at Safon Ansawdd Tai Cymru
Cyfarwyddwr Arweiniol	Cyfarwyddwr Corfforaethol (Adfywio)
Rheswm pam mae hyn yn flaenoriaeth	Mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod i ddarparu Cynllun Busnes blynyddol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) sy'n dangos sut caiff Safon Ansawdd Tai Cymru ei bodloni a'i chynnal dros gyfnod o 30 mlynedd.
Gweithgaredd presennol	Datblygu strategaeth ar gyfer cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a datblygu strategaeth tymor hwy ar gyfer gwella'r stoc yn sgîl pleidlais y tenantiaid yn erbyn trosglwyddo'r stoc. Y nod yw i'r strategaeth wella tai'r cyngor, i dderbyn cefnogaeth gan Gynllun Busnes CRT sy'n ddichonol o safbwynt ariannol ac a fyddai'n dderbyniol i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Byddai hefyd yn adlewyrchu canlyniadau proses ymgynghori â thenantiaid a rhanddeiliaid allweddol.
Canlyniad cyflawni'r flaenoriaeth	Manteision cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy fydd bodloni'r galw a aseswyd. Manteision gwella tai'r cyngor hyd at Safon Ansawdd Tai Cymru fydd gwelliant sylweddol mewn cyflwr tai, a bydd y buddsoddiad ychwanegol y mae ei angen i gyflawni hyn yn creu manteision economaidd ehangach ac yn cyfrannu at adfywio'r ystadau.

Camau gweithredu allweddol ar gyfer cyflwyno'r flaenoriaeth hon yn y tymor BYR (tan fis Mawrth 2009)

Camau gweithredu	Proses ymgynghori a chyfathrebu â thenantiaid a rhanddeiliaid allweddol eraill	Adrodd am strategaeth ddrafft hir dymor ar gyfer gwella tai'r cyngor hyd at Safon Ansawdd Tai Cymru	Cynhyrchu Cynllun Cyflwyno Tai Fforddiadwy drafft sy'n darparu datganiad clir ynghylch sut mae'r cyngor yn bwriadu cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy.
Swyddog â Chyfrifoldeb	Rheolwr y Rhaglen Dyfodol Tai	Rheolwr y Rhaglen Dyfodol Tai	Rheolwr Cynllunio Strategol, Gwasanaeth Tai
Canlyniad disgwyliedig	Canfod barn ynghylch diffinio'r safon ac opsiynau posib ariannu'r cyflawniad.	Adroddiad ar y penderfyniad i alluogi rhoi strategaeth gytunedig ar waith	Darparu cyfarwyddyd a chefnogaeth ar gyfer rhanddeiliaid a phartneriaid sy'n ymwneud â chyflwyno tai fforddiadwy.
Amserlenni	Awst 2008 - Tachwedd 2008	Mawrth 2009	Mawrth 2009
Meini prawf llwyddiant	Darparwyd cyfle i denantiaid a rhanddeiliaid allweddol fynegi eu barn.	Cefnogir y strategaeth drwy gynllun busnes CRT ymarferol sy'n dderbyniol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac sy'n adlewyrchu canlyniadau'r broses ymgynghori.	Mae'r cynllun cyflwyno ar gyfer cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn cael ei dderbyn.
Cerrig milltir allweddol (DP, yr hyn y gellir ei gyflwyno, etc)	Ymgynghoriad wedi'i gwblhau	Gwneir penderfyniad ynghylch strategaeth tymor hwy	Cymeradwyr y Cynllun Cyflwyno Drafft
Adnoddau	Rhaglen Dyfodol Tai (Cyfrif Refeniw Tai)	Rhaglen Dyfodol Tai (Cyfrif Refeniw Tai)	Gwasanaethau Tai (Cronfa Gyffredinol Tai - (CGT))

Camau gweithredu allweddol ar gyfer cyflwyno'r flaenoriaeth hon yn y tymor CANOLIG (Ebrill 2009 - Mawrth 2012)

Camau gweithredu	Rhoi'r strategaeth gyntunedig ar waith	Rhoi'r Cynllun Cyflwyno ar waith
Swyddog â Chyfrifoldeb	Cyfarwyddwr Corfforaethol (Adfywio)	Cyfarwyddwr Corfforaethol (Adfywio)
Canlyniad disgwyliedig	Rhoi'r strategaeth gyntunedig ar waith er mwyn gwella tai'r cyngor at Safon Ansawdd Tai Cymru	Rhoi'r Cynllun Cyflwyno cyntunedig ar waith ar gyfer cynyddu nifer y tai fforddiadwy.
Amserlenni	I'w gytuno fel rhan o'r strategaeth hir dymor	Erbyn diwedd yr haf 2009
Meini prawf llwyddiant	Tai'r cyngor wedi'u gwella at Safon Ansawdd Tai Cymru	Mae'r cyngor yn galluogi datblygu nifer targed o dai fforddiadwy - y cyfanswm i'w bennu fel rhan o'r Cynllun Cyflwyno cyntunedig ac adolygiadau blynyddol
Cerrig milltir allweddol (DP, yr hyn y gellir ei gyflwyno, etc)	I'w gytuno fel rhan o'r strategaeth hir dymor	I'w bennu fel rhan o'r Cynllun Cyflwyno cyntunedig
Adnoddau	I'w gytuno fel rhan o'r strategaeth hir dymor	Gwasanaethau Tai (CGT)

Nod 2 - Rydym am barhau i wella potensial economaidd Abertawe er mwyn i bawb fod yn rhan o economi ffyniannus

Blaenoriaeth Allweddol	Darparu system drafnidiaeth integredig ar draws pob modd o gludiant, sy'n ystyried economi'r nos
Cyfarwyddwr Arweiniol	Cyfarwyddwr Corfforaethol (Yr Amgylchedd)
Rheswm pam mae hyn yn flaenoriaeth	Mae'n ofynnol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol baratoi Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol (gan ddisodli Cynllun Trafnidiaeth Lleol 2000) sy'n rhoi Strategaeth Trafnidiaeth Cymru (2008) ar waith.
Gweithgaredd presennol	Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft wedi'i gyhoeddi ac yn destun ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2008
Canlyniad cyflawni'r flaenoriaeth	Canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n ymwneud â gwella mynediad a diogelwch a lleihau effaith trafndiaeth ar yr amgylchedd wedi'u nodi yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru

Camau gweithredu allweddol ar gyfer cyflwyno'r flaenoriaeth hon yn y tymor BYR (tan fis Mawrth 2009)

Camau gweithredu	Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Cyfan De-orllewin Cymru	Cyflwyno Gorfodi Parcio Sifil	Comisiynu Astudiaeth Parcio Strategol ar gyfer Canol y Ddinas
Swyddog â Chyfrifoldeb	Cydlynedd SWWITCH / Arweinydd Grŵp - Cludiant	Arweinydd y Grŵp – Rheoli Traffig	Arweinydd Grŵp - Cludiant
Canlyniad disgwyliedig	Cynllun Rhanbarthol Newydd	Lleihau parcio anghyfreithlon	Strategaeth barcio newydd
Amserlenni	Cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) Mawrth 2009	I ddechrau 1 Medi 2008	Comisiynu i ddechrau fis Hydref 08 a gorffen ym mis Mawrth 09
Meini prawf llwyddiant	Sicrhau arian gan y Grant Trafnidiaeth Rhanbarthol	Lleihau tagfeydd / gwella cylchrediad a mynediad bysus	Strategaeth a chyfleusterau parcio i gefnogi canol y ddinas
Cerrig milltir allweddol (DP, yr hyn y gellir ei gyflwyno, etc)	Adrodd i'r Cyngor fis Ionawr 2009	Cyflwyno'r cynllun fis Medi 2009 Monitro'r effaith Ionawr 09	Gwahoddiad i dendro fis Awst 09 Penodi ymgynghorwyr fis Hydref 2008
Adnoddau	Grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) i gefnogi Consortiwm Trafnidiaeth Integredig De-orllewin Cymru (SWWITCH)	Cyllideb Refeniw	Grant gan LICC / cyllideb refeniw

Camau gweithredu	Darparu rhengoedd tacsis ychwanegol yn y ddinas	Darparu marsialiaid tacsis a gorfodi mewn lleoliadau allweddol ar adegau prysur
Swyddog â Chyfrifoldeb	Swyddog Rhanbarthol - Trwyddedu	Swyddog yr Is-adran - Trwyddedu
Canlyniad disgwyliedig	Mwy o dacsis ar gael mewn rhengoedd tacsis	Pobl yn defnyddio rhengoedd swyddogol
Amserlenni	Mawrth 09	Rhagfyr 08
Meini prawf llwyddiant	Gweithrediad llyfnach	Ciwiau didrafferth a chiriio'r ardal yn gyflym
Cerrig milltir allweddol (DP, yr hyn y gellir ei gyflwyno, etc)	York Place - yn weithredol erbyn y Nadolig	Cais i'r Ardal Gwella Busnes (BIDS) am arian ychwanegol - Hydref 2008 Os yw'r cais yn llwyddiannus, yn weithredol o fis Rhagfyr 2008
Adnoddau	Cyllideb Refeniw	Partneriaeth â BIDS

Camau gweithredu allweddol ar gyfer cyflwyno'r flaenoriaeth hon yn y tymor CANOLIG (Ebrill 2009 - Mawrth 2012)

Camau gweithredu	Rhoi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar waith	Rhoi argymhellion Astudiaeth y Rhodfa Ewropeaidd ar waith ar gyfer coridor Heol Ystumllwynarth
Swyddog â Chyfrifoldeb	Cydlynedd SWWITCH / Arweinydd Grŵp - CludiantTransportation.	Pennaeth Gwasanaeth, Cludiant a Pheirianneg
Canlyniad disgwyliedig	Gwella cludiant a mynediad	Gwell cyfleusterau i gerddwyr a beicwyr ar hyd ac ar draws coridor Heol Ystumllwynarth
Amserlenni	2009 -14	Ymagwedd fesul cam 2009-2014
Meini prawf llwyddiant	Ceisiadau llwyddiannus am ariannu Gwell cludiant/mynediad	Llif traffig/tagfeydd Symudiadau cerddwyr/beicwyr
Cerrig milltir allweddol (DP, yr hyn y gellir ei gyflwyno, etc)	Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2010	Dylunio cychwynnol gwanwyn 2009 Sicrhau arian 2009 Rhoi'r cam 1af ar waith 2009/10
Adnoddau	Arian LICC ar gyfer Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol	Menter ar y cyd gyda LICC/Rhaglen Cycgyfeirio'r Undeb Ewropeaidd/Cyfraniadau datblygwyr

Blaenoriaeth Allweddol	Gwella cludiant cyhoeddus a'i wneud yn fwy deniadol er mwyn annog mwy o bobl i'w defnyddio, ac mae hyn yn cynnwys darparu cyfnewidfa fysis fodern
Cyfarwyddwr Arweiniol	Cyfarwyddwr Corfforaethol (Yr Amgylchedd)
Rheswm pam mae hyn yn flaenoriaeth	Mae gwella cludiant cyhoeddus yn flaenoriaeth allweddol yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru, Cynllun Gofodol Cymru a'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft.
Gweithgaredd presennol	Rhoi cynllun Metro Abertawe ar waith
Canlyniad cyflawni'r flaenoriaeth	Cynyddu'r defnydd o gludiant cyhoeddus, gwella mynediad, lleihau tagfeydd a phroblemau ansawdd aer

Camau gweithredu allweddol ar gyfer cyflwyno'r flaenoriaeth hon yn y tymor BYR (tan fis Mawrth 2009)

Camau gweithredu	Agor Lôn Fysus Gyflym Glandŵr	Cwblhau gwaith isadeiledd Metro Abertawe	Dechrau ar gynllun Cyfnewidfa'r Cwadrant
Swyddog â Chyfrifoldeb	Arweinydd Grŵp - Gwelliannau	Arweinydd Grŵp - Gwelliannau	Arweinydd Grŵp - Gwelliannau
Canlyniad disgwyliedig	Lleihau amser teithio gwasanaeth parcio a theithio Glandŵr a gwasanaethau bws eraill	Y cyhoedd yn defnyddio cludiant cyhoeddus yn fwy	Y cyhoedd yn defnyddio cludiant cyhoeddus yn fwy
Amserlenni	Yn agor fis Medi 2008	Mawrth 2009	Yn dechrau gwanwyn 2009 Yn gorffen gwanwyn 2010*
Meini prawf llwyddiant	Defnyddio Metro Abertawe, lleihau amser teithio a pharcio a theithio	Defnydd/Canran sy'n teithio ar gludiant cyhoeddus Amserau teithio	Bodddhad defnyddwyr gyda chludiant cyhoeddus
Cerrig milltir allweddol (DP, yr hyn y gellir ei gyflwyno, etc)	Yn agor fis Medi 08 Monitro'r defnydd a lleihau amser teithio Rhagfyr 08	Amserau teithio gyda First (Ionawr - Mawrth 09) Monitro defnydd, Bodddhad defnyddwyr (Mehefin 09/Hydref 09)	Strategaeth y cynllun o safleoedd amgen a gwybodaeth (hydref 08) Cwblhau'r Cynllun Busnes (Rhagfyr 08) Dechrau adeiladu (Ionawr 09) Ymgrych y cyfryngau (hydref 09)
Adnoddau	Grant Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru	Grant Trafnidiaeth LICC / Amcan 1	Grant Trafnidiaeth LICC/Arian Cydgyfeirio yr Undeb Ewropeaidd (UE)

*gan dybio nad oes angen ailddendro

Camau gweithredu allweddol ar gyfer cyflwyno'r flaenoriaeth hon yn y tymor CANOLIG (Ebrill 2009 - Mawrth 2012)

Camau gweithredu	Rhoi gwasanaeth Parcio a Theithio ar waith yng ngorllewin Abertawe	Adhwyddu Gorsaf Stryd Fawr Abertawe
Swyddog â Chyfrifoldeb	Arweinydd Grŵp - Gwelliannau	Network Rail / Arweinydd Grŵp - Cludiant
Canlyniad disgwyliedig	Cyflwyno pedwerydd cynllun parcio a theithio	Gwell cyfleusterau i deithwyr
Amserlenni	I'w gwblhau yn rhan olaf 2010	Cwblhau 2010
Meini prawf llwyddiant	Mwy yn defnyddio gwasanaethau parcio a theithio Llai o dagfeydd ar Heol Ystumllwynarth	Gwell boddhad teithwyr Defnydd cynyddol o drenau
Cerrig milltir allweddol (DP, yr hyn y gellir ei gyflwyno, etc)	Sicrhau tir a chaniatâd cynllunio yn 2009	Cwblhau'r astudiaeth dichonoldeb fis Hydref 2009 Cwblhau'r cynllun/sicrhau arian gwanwyn 2010
Adnoddau	Arian gan Grant Trafnidiaeth LICC/y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	Rhaglen Gwella Gorsafoedd Genedlaethol - defnydd posib o'r CTRh/arian cydgyfeirio'r UE

Blaenoriaeth Allweddol	Gwella a Datblygu Canol y Ddinas
Cyfarwyddwr Arweiniol	Cyfarwyddwr Corfforaethol (Yr Amgylchedd)
Rheswm pam mae hyn yn flaenoriaeth	Mae canol y ddinas wedi bod yn tanberfformio ac mae angen ei wella drwy fuddsoddi mewn datblygu, yr ardaloedd cyhoeddus, hygyrchedd a gweithgareddau i gynyddu ei fywiogrwydd er mwyn iddo gyflawni ei rôl fel canolbwynt rhanbarthol ar gyfer manwerthu, cyflogaeth a darparu gwasanaethau.
Gweithgaredd presennol	Cyflwyno rhaglen o fentrau adfywio sy'n seiliedig ar Fframwaith Strategol Canol y Ddinas
Canlyniad cyflawni'r flaenoriaeth	Mwy o fywiogrwydd, gweithgarwch a ffyniant, gan gynnwys darparu cyflogaeth ychwanegol a defnyddiau cymysg, a fydd yn cyflwyno economi cystadleuol, canolfan siopa ranbarthol o safon, amgylchedd o safon uchel, llety yng nghanol y ddinas, dinas lan môr, hygyrchedd a symudiad, a dinas sy'n gyrchfan a chanddi rôl ranbarthol a hunaniaeth unigryw.

Camau gweithredu allweddol ar gyfer cyflwyno'r flaenoriaeth hon yn y tymor BYR (tan fis Mawrth 2009)

Camau gweithredu	Paratoi amrywiaeth o astudiaethau i gefnogi'r cynigion a nodwyd yn Fframwaith Strategol Canol y Ddinas	Ehangu a gwella cyfleusterau manwerthu yng nghanol y ddinas
Swyddog â Chyfrifoldeb	Rheolwr Datblygu Strategaethau, Datblygu Economaidd a Strategol	Rheolwr Datblygu Eiddo / Rheolwr Canol y Ddinas, Datblygu Economaidd a Strategol
Canlyniad disgwyliedig	Mwy o wybodaeth am ddichonoideb a natur y cynigion a nodwyd yn Fframwaith Strategol Canol y Ddinas.	Gwella'r dewis o siopau a chynnyddu bywiogrwydd Canol y Ddinas
Amserlenni	Mis Medi 2008 tan fis Mawrth 2009	Mis Medi 2008 tan fis Mawrth 2009
Meini prawf llwyddiant	Mae'r adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth y gall rheolwyr prosiectau a dylunwyr cynlluniau eu defnyddio wedyn.	Darperir lle manwerthu newydd a gwell
Cerrig milltir allweddol (DP, yr hyn y gellir ei gyflwyno, etc)	3 astudiaeth wedi'u cwblhau ac adroddiadau drafft terfynol wedi'u derbyn yn unol â briff y prosiect, a hynny o fewn yr amserlen a'r gyllideb	Cyflwynwyd 2 gynllun allweddol yn Ffordd y Dywysoges ac ym Marchnad Abertawe
Adnoddau	Timau prosiectau corfforaethol Dinas a Sir Abertawe (DASA), personél Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) ac ymgynghorwyr allanol; cyllidebau adfywio DASA a LICC.	Timau prosiectau corfforaethol DASA, personél LICC, ymgynghorwyr allanol a'r sector preifat; cyllidebau adfywio DASA a LICC, arian o'r sector preifat

Camau gweithredu allweddol ar gyfer cyflwyno'r flaenoriaeth hon yn y tymor CANOLIG (Ebrill 2009 - Mawrth 2012)

Camau gweithredu	Cyflwyno rhaglen o Gynlluniau Gwella Adeiladau	Cyflwyno rhaglen o Gynlluniau Gwella Ardaloedd Cyhoeddus a Gwella Hygyrchedd
Swyddog â Chyfrifoldeb	Rheolwr Datblygu Strategaethau, Datblygu Economaidd a Strategol	Rheolwr Datblygu Strategaethau, Datblygu Economaidd a Strategol
